

Agenda

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 18 Mai 2023

Amser y cyfarfod: 9:00-14:35

Lleoliad: Microsoft Teams
Ymunwch ar eich cyfrifiadur, ap symudol neu ddyfais ystafell
[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)
[Lawrlwytho Teams](#) | [Ymunwch ar y we](#)
Neu ffoniwch (sain yn unig)
[+44 29 2105 5545,,531520095#](tel:+442921055545,531520095)

Amser	Eitem
-------	-------

9:00 (5 munud)	1. Agor y Cyfarfod <ul style="list-style-type: none">CroesoDatganiadau o fuddiantEsbonio'r dull o gynnal y cyfarfod
-------------------	--

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

9:05 (5 munud)	2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 23 Mawrth 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus
-------------------	--

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r cofnod gweithredu.

9:10 (5 munud)	3. Diweddariad gan y Cadeirydd Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw
-------------------	--

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

9:15 (15 munud)	4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr
--------------------	---

Crynodeb: NODI'r sefyllfa bresennol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y papur: 23-05-B04

**9:30
(20 munud)**

5. Adroddiadau Diweddarau y Pwyllgorau a'r Fforymau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – 10 Mai

Y Pwyllgor Cyllid – 28 Ebrill

Cyfeirnod y papur: 23-05-B05

Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 18 Ebrill

Cyfeirnod y papur: 23-05-B06

Y Pwyllgor Ystad Tir – 5 Mai

Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 4 Mai

Diweddariadau Fforwm

Fforwm Rheoli Tir Cymru

Cyfeirnod y papur: 23-05-B07

Fforwm Pysgodfeydd Cymru

Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

Cyfeirnod y papur: 23-05-B09

Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru

Cyfeirnod y papur: 23-05-B10

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, o fewn y cyfarfodydd a gynhaliwyd a thu hwnt.

**9:50
(20 munud)**

6. Adroddiad Perfformiad Ariannol

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: NODI'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod y papur: 23-05-B11

**10:10
(20 munud)**

7. Rhaglen Prentisiaeth Bwrdd y DU

Noddwyr: Syr David Henshaw, Cadeirydd / Clare Pillman, Prif Weithredwr

Cyflwynydd: Natalie Williams, Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Crynodeb: CYMERADWYO rhan CNC yn Rhaglen Brentisiaethau Bwrdd y DU

Cyfeirnod papur: 23-05-B16

**10:30
(5 munud)**

8. Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Noddwr: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Cyflwynydd: Clare Jones, Prif Ymgynghorydd Arbenigol, Llywodraethu

Crynodeb: CYMERADWYO y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Cyfeirnod y papur: 23-05-B13

10:35
(35 munud) **Egwyl**

11:10
(90 munud) **9. Trafod gyda Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy**
Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynwyr: Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol, Dŵr Cymru; James Jesic, Rheolwr Gyfarwyddwr, Hafren Dyfrdwy

Mynychwyr allanol: Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr – Gwasanaeth Dŵr Gwastraff, Cwsmeriaid Busnes ac Ynni, Dŵr Cymru; Stephanie Pullen, Arweinydd Rheoliadau a Thrwyddedau Amgylcheddol, Hafren Dyfrdwy; Gwenllian Roberts, Cyfarwyddwr Ofwat dros Gymru; Eifiona Williams, Pennaeth y Gangen Dŵr, Llywodraeth Cymru; Andy Fraser, Llywodraeth Cymru

Mynychwyr CNC: Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin; Ruth Johnston, Prif Ymgynghorydd Arbenigol, Strategaeth Dŵr; Mark Squire, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy

Crynodeb: TRAFOD gwaith dilynol ar gyflwyniad y cynllun busnes i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022

Cyflwyniad

12:40
(60 munud) **Cinio**

13:40
(20 munud) **10. Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2022-23**
Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2022-23

Cyfeirnod y papur: 23-05-B12

14:00
(5 munud) **11. Rhagolwg y Bwrdd**
Noddwr: Syr David Henshaw
Cyflwynydd: Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyfeirnod y papur: 23-05-B14

14:05
(5 munud) **12. UNRHYW FATER ARALL**

Diwedd Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd

14:10 **Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus**
(25 munud)

14:35 **Diwedd y cyfarfod**

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus
Gwesty Clayton, Caerdydd a Microsoft Teams

Dyddiad y cyfarfod: 23 Mawrth 2023

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol: Syr David Henshaw, Cadeirydd
Clare Pillman, Prif Weithredwr
Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd
Karen Balmer
Julia Cherrett
Geraint Davies
Yr Athro Peter Fox
Zoe Henderson (o 11am) (*Teams*)
Yr Athro Calvin Jones
Mark McKenna
Helen Pittaway
Yr Athro Peter Rigby (*Teams*)

Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid
Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (Eitemau 1 i 8)
Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem)
Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes (Eitem 6) Teams
Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (Eitemau 7 a 9)
Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Trawsnewid Digidol (Eitem 7)
Lynette Bowley, Uwch Ymgynghorydd Arbenigol, y Cyfryngau (Eitem 7)
Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd (Eitem 8 a Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus)
Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol (Eitem 9) Teams
Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Sefydliadol (Eitemau 10 ac 11)
Shaheen Sutton, Arbenigwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Eitem 10)
Phil Mostyn, Prif Ymgynghorydd Arbenigol, Lles, Iechyd a Diogelwch (Eitem 11) Teams

Pennaeth Cynllunio Datblygu (DPAS) a Gwasanaethau Morol (Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus)

**Sylwedyddion
CNC:**

Yr Athro Rhys Jones
Kathleen Palmer
Michael Evans, Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru
Kate Evans, Rheolwr, Materion Preifat/Ysgrifennydd Personol i'r Prif Swyddog Gweithredol
David Mee, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli Pysgodfeydd Dŵr Croyw (Eitem 8 a Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus)

**Sylwedyddion
Allanol:**

Julie James, Y Gweinidog Newid Hinsawdd (Eitem 7)
Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol, Llywodraeth Cymru (eitem 7)
Nathan Huish, Llywodraeth Cymru (Eitem 7)
Nick Sharratt, Llywodraeth Cymru (Eitemau 1 i 7)
Catryn Holzinger, Archwilio Cymru (Eitem 7)
Nigel Milner (Eitem 8)

**Sylwedyddion
Cyhoeddus:**

Harriet Alvis – Prif Swyddog Gweithredol, Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
Kim Waters – Undeb Afonydd Cymru

Datganiadau:

- Yr Athro Steve Ormerod – Aelod o ddwy Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Cymru (dim dylanwad ar bolisi); Is-lywydd RSPB (dim dylanwad ar bolisi); Aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (dim dylanwad ar bolisi); Cymrawd Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli'r Amgylchedd (dim dylanwad ar bolisi); Diddordeb ymchwil gwyddonol mewn ansawdd dŵr drwy Brifysgol Caerdydd a statws afonydd, Cyd-gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Dŵr Caerdydd.
 - Geraint Davies – Aelod (dim dylanwad dros bolisi): RSPB Cymru; Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; NFU Cymru; Undeb Amaethwyr Cymru; Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwylt; Aelod o grŵp cynghori sy'n gweithio ar gyfeiriad dyfodol ystâd Efyrynwy/Llyn Efyrynwy sydd â thir mewn SoDdGA
 - Mark McKenna – Prif Weithredwr Down to Earth sydd â chais cynllunio parhaus mewn ardal SAC; Canolfan Ganser Felindre – Down to Earth yn rhan o'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio; Skyline
 - Yr Athro Calvin Jones – Aelod o Fwrdd Rheoli Skyline sydd â buddiannau ar Stad a reolir gan CNC
-

Ymddiheuriadau:

Dr Rosie Plummer
Zoe Henderson (9am i 11am)
Ceri Davies (o Eitem 9)

Ysgrifenyddiaeth:

Jocelyn Benger
Natalie Williams

Eitem 1: Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chroesawu pawb. Derbyniwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

Eitem 2: Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd ar 27 Ionawr

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr.

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu

3. Adolygwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Soniodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd am gyfarfodydd cadarnhaol a gynhaliwyd gyda'r Gweinidog, a fyddai'n ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach. Byddai'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei lansio'n swyddogol ym mis Mehefin yn y Senedd. Nodwyd y berthynas waith bositif gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (LIC).
5. Roedd ail Uwchgynhadledd Ddŵr y Prif Weinidog wedi digwydd yn ddiweddar. Clywodd yr Uwchgynhadledd y newyddion diweddaraf am y cynnydd o ran materion yn ymwneud ag oedi ceisiadau cynllunio. Derbyniwyd bod angen mynd i'r afael ag ystod eang o faterion ansawdd dŵr. Roedd timau yn CNC yn gweithio ar hyn, a derbyniwyd cynigion o gymorth gan sefydliadau eraill sy'n rhan o'r Uwchgynhadledd Ddŵr, ynghyd ag adnoddau i gyflymu'r gwaith ar ansawdd dŵr. Cynhaliwyd trafodaethau yng nghyfarfod preifat y Bwrdd ynglŷn â'r angen i fod yn fwy agored am waith CNC ar ansawdd dŵr, gan gynnwys yr arwyddion o gynnydd.
6. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod drosolwg o Gynllun Gweithredu'r Uwchgynhadledd Ddŵr, a oedd yn cynnwys gwella'r broses o gyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur, gweithio'n fwy adeiladol gyda'r gymuned amaethyddol, ac edrych ar rwystrau o ran cynllunio. Roedd yr Uwchgynhadledd wedi bod yn gyfarfod cadarnhaol gyda chyfraniadau yn cael eu cynnig o bob cyfeiriad.

Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

7. Cyflwynodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am eitemau yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig.
8. Roedd yr wythnos wedi gweld llanw uchel, rhybuddion llifogydd a rhybuddion. Roedd gwaith hefyd yn digwydd gyda'r Grŵp Sychder i ystyried beth fyddai'n digwydd pe bai ail haf sych, ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd y llynedd o ran ymgysylltu cynnar gyda'r cyhoedd a thynwyr dŵr.
9. Roedd Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) wedi'i basio ac roedd bellach ar ei ffordd i dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Darparwyd trosolwg ar yr elfen Partneriaeth Gymdeithasol, gan gynnwys gweithio gyda'r Undebau Llafur. Roedd CNC yn ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth Cymru ar y newidiadau a ddaeth yn sgil yr elfen Caffael Cyhoeddus ar sut yr oedd caffael yn cael ei reoli yng Nghymru. Rhoddodd pwyslais y Cynllun Corfforaethol ar effeithiau posibl yn y gadwyn gyflenwi ar yr argyfyngau hinsawdd a natur hwb gwirioneddol i hyn. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol.

10. Diolchwyd i'r Athro Steve Ormerod a Dr Rosie Plummer am eu cyfraniadau i ddathlu wythnos niwroamrywiaeth, gan nodi eu cyfraniadau pwerus a oedd wedi galluogi staff i siarad a rhannu eu profiadau.
11. Roedd Prosiect Maelgi Cymru wedi'i enwebu ar gyfer Gwobr Dewi Sant, ac roedd disgwyl y cyhoeddiad ar 20 Ebrill.
12. Byddai agoriad swyddogol y cynllun yn Llyn Tegid yn cael ei gynnal ddydd Gwener 31 Mawrth. Cafodd cwblhau'r gwaith pwysig o ran diogelwch y gronfa ddŵr ei groesawu, a dangoswyd cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad i'r gefnogaeth gan bobl y Bala.
13. Ystyriodd y Bwrdd gynnwys y diweddariad. Gofynnwyd a oedd gan y penderfyniad o ran datgan sychder mewn cymhariaeth â llinell sylfaen gynyddol o newid hinsawdd oblygiadau o ran sut y byddai adnoddau dŵr yn cael eu rheoli. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y byddai dysgu o'r sychder diwethaf yn cynnwys adolygu'r wybodaeth a'r data ar gyfer cynlluniau sychder CNC a'r cwmnïau dŵr, a fyddai'n arwain at newid yn y broses.
14. Diolchodd yr Athro Steve Ormerod i'r tîm a oedd ynghlwm wrth yr ymweliad â safle'r Ystafell Ddigwyddiadau y diwrnod blaenorol, a diolchodd hefyd iddynt am eu hymdrechion dan amgylchiadau heriol yn ystod digwyddiadau. Tynnwyd sylw at y newyddion digroeso diweddar ynghylch pibellau carthion yn gollwng a gollyngiadau diesel a chwestiynwyd y gwaith yn ymwneud â hynny.
15. Cydnabu'r Prif Weithredwr y problemau diweddar gan gadarnhau bod y camau gweithredu priodol yn cael eu hystyried. Roedd y gwaith glanhau ar y gweill, gydag yswiriant yn talu amdano. Roedd atal llygredd yn un o brif flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol newydd a chydnabuwyd yr her o fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Tynnwyd sylw at ymateb CNC o ran cymryd camau gweithredu a gorfodaeth briodol. Argymhellwyd y dylid darparu diweddariadau rheolaidd i aelodau'r Bwrdd a'r Gweinidog am gamau gorfodi. Croesawyd hyn gan aelodau'r Bwrdd, gan nodi'r materion yn ymwneud â'r seilwaith oedrannus mewn perthynas â'r difrod i'r bibell garthffos ond hefyd amgylchiadau cwbl annisgwyl y digwyddiad ble gollyngodd y diesel.

CAM GWEITHREDU: Aelodau'r Bwrdd a'r Gweinidog i dderbyn diweddariadau rheolaidd am gamau gorfodi

16. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ddiweddariad ar ddigwyddiadau, gan nodi bod tua wyth i naw mil y flwyddyn, gyda rhai ohonynt yn rhai proffil uchel. Croesawyd cydnabyddiaeth y Bwrdd o'r gwaith oedd ynghlwm wrth ddigwyddiadau. Darparwyd trosolwg o rai o'r digwyddiadau nodedig o'r chwarter hwn. Disgrifiwyd y digwyddiad gyda'r brif garthffos ym Magwyr yn fanylach. Roedd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu wedi cyfarfod â Chyfarwyddwyr y cwmnïau dŵr ac wedi trafod y digwyddiad ar Afon Taf, a oedd yn gysylltiedig â seilwaith yn heneiddio. Eglurodd y cwmnïau dŵr eu mecanweithiau ar gyfer delio â hyn yn y tymor byr a'r tymor hir. Tynnwyd sylw at y trafodaethau ynghylch datblygu naratif ansawdd dŵr yn sesiwn breifat y Bwrdd ar y diwrnod blaenorol. Gellid cymhwyso'r dull hwn i ddigwyddiadau a gorfodaethau, fodd bynnag, cydnabuwyd yr her o wneud hyn yn ystod y cyfnod ymateb i ddigwyddiadau, yn enwedig wrth gasglu tystiolaeth gyfreithiol. Roedd y tîm yn benderfynol o gael hyn yn iawn, gan ddweud ei fod yn rhannu pryder dwfn y cyhoedd wrth weld y digwyddiadau hyn yn yr amgylchedd.
17. Awgrymodd aelodau'r Bwrdd y dylid adolygu'r dull o ymdrin â'r ymateb cyfathrebu uniongyrchol i ddigwyddiadau, er enghraifft, ymateb dros dro ar y cyfryngau cymdeithasol

yn cydnabod y mater a phryder y cyhoedd er mwyn sicrhau bod CNC yn weladwy wrth i ddiwydiadau godi. Dylid hefyd ystyried cyhoeddi'r rhesymeg wrth wraidd dulliau gorfodi.

18. Myfyriodd y Bwrdd ar ffocws y Cynllun Corfforaethol newydd ar atal llygredd a'r angen i fod yn fwy pendant yn y maes hwn. Gofynnwyd a oedd dadansoddiad o dueddiadau llygredd y gellid eu defnyddio i lunio strategaeth ar sut i fynd i'r afael â llygredd. Gofynnwyd am gyflwyniad ar y gwaith o leihau llygredd yn y cyfarfod nesaf. Tynnwyd sylw at y gwaith diweddar a gyhoeddwyd ar ddalgylchoedd a data ansawdd dŵr.

CAM GWEITHREDU: Cyflwyniad ar y gwaith o leihau llygredd i'w gyflwyno mewn cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol

19. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at Gynulliad Dinasyddion Natur a Ni yn Abertawe, gan nodi ei fod wedi bod yn drawiadol iawn ac yn awgrymu y gallai'r dull hwn gael ei ddatblygu ar gyfer ymgysylltu â'r Bwrdd.
20. Trafodwyd amrywiaeth y rhai oedd yn bresennol yn y Cynulliadau Dinasyddion. Nodwyd bod y tîm wedi dethol cynrychiolaeth yn ofalus er mwyn sicrhau amrywiaeth. Cafodd rhai o'r materion a oedd yn ymwneud â mynychu eu hystyried, megis trafnidiaeth ac anawsterau personol, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng costau byw. Cydnabuwyd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yn ystyried sut i fwrw ymlaen â hyn er mwyn sicrhau ystod y lleisiau. Awgrymwyd ystyried defnyddio cwmnïau panel arolygon mawr.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau gan Bwyllgorau a Fforymau

21. Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), cyflwynodd Catherine Brown y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref. Croesawyd Kath Palmer i'r tîm, fel Cadeirydd newydd arfaethedig ARAC. Cynhaliwyd cyfarfod buddiol, gyda sawl Adroddiad Archwilio Mewnol. Cafodd ailstrwythuro'r tîm Archwilio Mewnol ei gymeradwyo. Cynhaliwyd trafodaeth ar Risg Strategol 07 (SR07) gydag adborth manylach i ddilyn y tu allan i'r cyfarfod. Roedd hyfforddiant gweminar ar waith ymchwil risg manwl wedi'i gofnodi a'i rannu. Cafodd y Risg Seiber ei drafod, yn dilyn adroddiad ym mis Ionawr gan Archwilio Cymru. Byddai'r Strategaeth TGCh a'r darn am adfer wedi trychinebau yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol. Cynhaliwyd sesiynau caeedig gydag Archwilio Cymru a'r Pennaeth Archwilio Mewnol; ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y naill na'r llall.
22. Yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC), cyflwynodd yr Athro Peter Rigby ddiweddariad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Byddai angen adnewyddu aelodaeth EAC gan fod yr Athro Lorraine Whitmarsh wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor. Byddai cyfle i addasu'r aelodaeth yn unol â gofynion y Pwyllgor wrth symud ymlaen.
23. Yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, cyflwynodd Syr David Henshaw ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Chwefror a 7 Mawrth, a oedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar y gyllideb. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Roedd y perfformiad ariannol wedi cael ei adolygu a nodwyd bod ychydig o orwario wedi'i ragweld. Roedd diweddariad ar Daliadau wedi cael ei ystyried. Byddai'r Pwyllgor Cyllid yn ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol wrth symud ymlaen gan ganolbwyntio hefyd ar berfformiad. Croesawyd Helen Pittaway fel Cadeirydd newydd arfaethedig y Pwyllgor Cyllid.

24. Cyflwynodd Julia Cherrett, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd (FRMC), ddiweddariad i'r Bwrdd ar waith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, gan nodi nad oedd diweddariadau pellach.
25. Cyflwynodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr. Darparwyd diweddariad ar fesurau Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Stiwardiaeth Tir, a nodwyd fel Gwyrdd yn bennaf o ran statws Coch Melyn Gwyrdd (RAG), ar wahân i Felyn ar Reoli Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol oherwydd trafferthion gydag argaeledd contractwyr. Nodwyd problemau ynghlwm wrth y gostyngiad mewn incwm coed a oedd yn cael ei ragweld, yn enwedig y goblygiadau ar y gallu i wario ar welliannau rheoli natur. Roedd y Strategaeth Hamdden ar y gweill, a rhagwelwyd drafft erbyn yr hydref cyn ei dosbarthu ar gyfer ymgynghori yn ei chylch. Roedd y Strategaeth Fasnachol ar y gweill, gyda mwy o aeddfedrwydd yn y trafodaethau yn sicrhau bod gwerth yn cael ei gyflawni o'r tir o fewn rheolaeth CNC.
26. Cyflwynodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) (y Pwyllgor Pobl a Thaliadau gynt) ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth. Cafwyd diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid, a mynegwyd hyder bod y camau datblygu yn cael eu rhoi ar waith a buddion yn cael eu gwireddu ar unwaith. Roedd PCC wedi gofyn am fwy o waith olrhain ar fuddion y Rhaglen. Byddai dull gweithredu newydd yn cael ei fabwysiadu o ran Lles, Iechyd a Diogelwch, a fyddai'n rhannu achos ac effaith a gwersi a ddysgwyd gydag isadrannau. Roedd Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch yn cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar gyfer gweithgareddau risg uchel a hyfforddiant safleoedd anghyfeillgar. Roedd proses newydd Dylunio a Rheoli Adeiladu wedi'i rhoi ar waith yn dilyn yr hyn a ddysgwyd o Adolygiad Digwyddiad Difrifol. Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hannog i edrych ar eu hyfforddiant ar-lein eu hunain. Roedd recriwtio yn parhau i fod yn her barhaus ac roedd gwaith ymchwil manwl ar recriwtio wedi digwydd, ynghyd â phrosiect yn edrych ar rolau hanfodol i fusnes yn y tîm Llifogydd. Derbyniwyd yr Adroddiad Cyfathrebu chwarterol gyda llawer o weithgaredd, a chwestiynau ynghylch mewnwelediadau y gellid eu rhoi ar waith. Cafwyd cyflwyniadau ar arfer ymgysylltu da, cynllun peilot canoli gohebiaeth, a'r wefan newydd. Craffwyd ar yr Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chafodd ei gymeradwyo ar gyfer y Bwrdd. Cynhaliwyd gwaith ymchwil manwl ar y Risg Strategol Adnoddau.
27. Cyflwynodd yr Athro Steve Ormerod, yn dirprwyo ar ran Dr Rosie Plummer fel Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref. Derbyniwyd eitem ar Fesur yr UE a ddargedwir. Ystyriwyd materion yn ymwneud â chyflwr presennol Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Nodwyd mai dim ond tua 20% oedd mewn cyflwr ffafriol ac roedd PrAC wedi ystyried yr hyn oedd ei angen i droi hyn o gwmpas. Derbyniwyd eitem ar Fudd Net i Fioamrywiaeth. Roedd Biodiversity Net Gain ar waith yn Lloegr, a oedd yn edrych naill ai i godi cyllid neu osod nodweddion penodol ar gyfer bioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad. Roedd Cymru'n chwilio am ei fersiwn ei hun o hyn ar ffurf Budd Net i Fioamrywiaeth. Ystyriodd PrAC ddatblygiad protocol i arfarnu materion rheoli yn iawn neu faterion cyflwr anffafriol ar gyfer achosion lle'r oedd gan CNC gysylltiad ar ei Ystâd ei hun lle'r oedd y tir yn SoDdGA.
28. Cyflwynodd Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF), ddiweddariad i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Tynnwyd sylw at y ffocws ar arloesi yn yr Is-Grŵp Llygredd Amaethyddol. Roedd hyn yn gyfle i ganolbwyntio ar arloesi er mwyn cael gwared ar lygredd amaethyddol.
29. Cyflwynwyd diweddariad gan yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF). Byddai eitem sylweddol ar

drafferthion eogiaid yn dilyn, gyda'r eitem wedi cael ei chyflwyno i Fforwm Pysgodfeydd Cymru. Derbyniwyd eitem a oedd yn cysylltu gyda statws sewin ac i ba raddau yr oedd niferoedd y rhywogaeth honno hefyd yn gostwng. Roedd trafodaethau'n parhau gyda thrwyddedwyr pysgodfeydd rhwyd ar sut y byddai hyn yn mynd rhagddo. Tynnwyd sylw at eitem ar bysgota yng Nghymru a oedd yn ystyried pwysigrwydd economaidd, hamdden a lles bysgota, ac yn cynnwys ystadegau diddorol ar bobl a oedd yn bysgota yng Nghymru.

30. Roedd y WWMF wedi trafod diweddariad ar ddyfroedd ymdrochi a'r syniad o ddynodi dyfroedd ymdrochi. Bellach, roedd afonydd a dyfroedd sefydlog addas wedi'u nodi a fyddai'n rhan o gynllun peilot yn 2023, gyda'r cysyniad yn gweithredu fel modd i gryfhau monitro ansawdd dŵr ac o bosibl i sbarduno gwelliant. Darparwyd cyflwyniad ar ddadansoddi data rheoleiddio CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n dangos rhai o batrymau datblygiad cymunedau biolegol mewn perthynas â llygredd. Cafwyd eitem ar Wyddoniaeth y Dinesydd mewn perthynas â dŵr, gan gynnwys ystyried yr heriau ar sicrhau ansawdd, a threfnu casglu data. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan LIC a oedd yn cynnwys data ar y dadansoddiad ar waith trin dŵr gwastraff a cham-gysylltiadau carthffosydd gan arwain at gynnydd mewn cynnyrch fferyllol yn yr amgylchedd afonydd.
31. Tynnodd Zoe Henderson sylw at y ffaith bod yr un cyflwyniad ar Wyddoniaeth y Dinesydd wedi'i dderbyn yn WLMF a mynegodd rywfaint o siom ei fod wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr heriau yn hytrach na'r cyfleoedd.
32. Cyflwynodd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru (NAFW), ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth. Cyflwynodd Geraint Davies ddiweddariad i NAFW am ei gyfarfod gyda Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ar drafodaethau ar rôl a gwerth NAFW i wasanaethau a rhanddeiliaid. Gwahoddwyd y Gweinidog i'r cyfarfod nesaf yn yr haf a byddai'n cymryd rhan mewn taith gerdded yn ei hetholaeth er mwyn hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynyddu mynediad amrywiol i gefn gwlad. Ymysg yr eitemau eraill a drafodwyd yn y cyfarfod roedd Llwybr Arfordir Cymru, a diweddariad am Natur Greadigol. Cafwyd cyflwyniad diddorol hefyd ar waith Parc Cenedlaethol Eryri ar fynediad i bobl anabl a amlygodd fanteision cadarnhaol mynediad i gefn gwlad.

Eitem 6: Adroddiad Perfformiad Ariannol

Cyflwynydd: Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes

33. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Busnes yr Adroddiad Perfformiad Cyllid ar gyfer y sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd mis Ionawr, ac ystyriwyd fod y papur wedi'i ddarllen. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid a'r Tîm Gweithredol gyda sefyllfa mis Chwefror, a oedd yn cynnwys rhagolwg tebygol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd y papur fod sefyllfa'r Incwm o £237m fwy neu lai yn unol â'r targed, ond gyda'r posibilrwydd o gyllid ychwanegol o £1.1m ar gyfer Mawndiroedd a £2m ar gyfer Cyfalaf Llifogydd. Roedd y ddau bellach wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog, ac felly mae'r incwm cyffredinol ar gyfer eleni bellach ychydig dros £240m. Nododd y papur fod £33.8m yn cael ei ragweld ym mis Ionawr ar gyfer incwm coed. Roedd y rhagolygon wedi amrywio yn ystod y misoedd diwethaf ond gyda rhagfynegiadau yn gostwng oddeutu £1m. Fodd bynnag, roedd anfoniadau wedi gwella, felly roedd y ffigur tebygol bellach tua £33.7m. Roedd LIC bellach wedi cadarnhau taliad o £6.9m i'r gronfa bensiwn. Roedd hi'n debygol y byddai'r sefyllfa diwedd blwyddyn oddeutu £247m. Yr unig amrywiolyn posib i'r ffigur hwn fyddai pe na bai'r arian allanol ychwanegol yn cael ei hawlio.
34. Roedd gwariant £5m yn uwch na'r proffil ddiwedd Ionawr, gyda £3m ohono'n gysylltiedig â'r Rhaglen Cyfalaf Llifogydd, ond byddai'r £2m ychwanegol a nodwyd uchod yn golygu bod modd cyrraedd y targed ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer Cyfalaf Llifogydd. Roedd y

£2m arall a nodwyd yn y papur yn ymwneud â gweithgareddau Stiwardiaeth Tir. Dargyfeiriwyd arbedion o feysydd eraill i gefnogi hyn ochr yn ochr ag adolygiad o'r Rhaglen, ond roedd hi'n dal yn debygol y byddai gorwariant o £1m ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd LIC wedi cael diweddariad ac wedi cael gwybod yn ffurfiol am y gorwario tebygol. Awgrymodd LIC y gallai'r taliad pensiwn gael ei leihau ond byddai hyn yn ychwanegu at bwysau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Byddai'r sefyllfa derfynol yn hysbys erbyn canol Ebrill ar ôl i'r ychwanegiadau terfynol gael eu prosesu.

35. Bu aelodau'r Bwrdd yn ystyried cynnwys yr adroddiad, a chwestiynwyd y gorwario o ran Stiwardiaeth Tir. Esboniwyd bod gorwario wedi digwydd ar eitemau gwariant fel ffyrdd a gwaith sifil. Roedd ymarfer trylwyr o ran gwersi a ddysgwyd a gwaith ymchwil manwl i fod i ddigwydd. Nodwyd bod y pwynt cychwynnol wedi'i seilio ar incwm coed ac y byddai gwersi yn hyn o beth yn cael eu hystyried i'r dyfodol.

36. Nododd y Bwrdd y perfformiad ariannol i ddiwedd Ionawr 2023, gan gymeradwyo'r newid i gynnydd y rhagolwg gwaelodlin i £237.1m

WEDI'I GYMERADWYO: Y newid i gynnydd y rhagolwg gwaelodlin i £237.1m

Eitem 7a: Y Gweinidog Newid Hinsawdd – Holi ac Ateb

37. Croesawodd y Cadeirydd Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, i gyfarfod y Bwrdd.

38. Diolchodd y Gweinidog i'r Bwrdd am y gwahoddiad i ymuno â'r cyfarfod a chanmolodd y gwaith ar y Cynllun Corfforaethol newydd, gan ddweud bod ei ddarllen yn ysbrydoledig, a bod cyfle i wneud gwahaniaeth sylweddol. Croesawyd y cyd-benderfyniad rhwng CNC a Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn. Croesawodd y Gweinidog aelodau newydd y Bwrdd a nododd pa mor fywiog a blaengar oedd y Bwrdd presennol. Diolch i aelodau hirhoedlog y Bwrdd, yn enwedig Karen Balmer a Zoe Henderson, sy'n tynnu at derfyn cyfnod eu penodiad. Llongyfarchwyd yr Athro Calvin Jones a Mark McKenna ar gael eu hailbenodi i'r Bwrdd a chroesawyd eu gallu i gynnis safbwynt gwahanol ar faterion. Amlygwyd pwysigrwydd dweud y gwir wrth y rhai mewn grym.

39. Disgrifiodd yr Athro Steve Ormerod y dadansoddiad a wnaed gan Brifysgol Caerdydd a oedd wedi canfod bod y camau rheoleiddiol a gyflwynwyd yn ystod y 1990au wedi gwella amgylchedd afonydd trefol ac na ddylid colli golwg ar yr effaith gadarnhaol sy'n gallu digwydd wrth weithredu.

40. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Athro Steve Ormerod ar sut i gadw'r argyfyngau natur, hinsawdd a llygredd wrth galon busnes y Llywodraeth, tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod ei phortffolio Gweinidogol yn cefnogi sylw i'r materion hyn. Roedd heriau ynghylch y gyllideb, a ddisgrifiwyd fel un o'r gwaethaf gyda dim ond £1m o gyfalaf, ond er gwaethaf anhawster y gwaith, cefnogwyd cyllideb CNC ac roedd prawf gweladwy bod natur yn cael ei flaenoriaethu. Tynnwyd sylw at bwysau cyllidebol yn y GIG ond cydnabuwyd y cysylltiad rhwng yr agendâu iechyd a'r amgylchedd. Disgrifiodd y Gweinidog ei chenhadaeth wrth ymgorffori symud i'r cyfeiriad cywir o ran yr amgylchedd a sicrhau bod deddfwriaeth yn addas i'r diben ar gyfer gwarchod yr amgylchedd, yn enwedig o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Disgrifiwyd nifer yr heriau yn hyn o beth. Byddai rôl CNC, swyddogion Llywodraeth Cymru, a Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol wrth ddal ati i weithio ar y materion hyn yn allweddol, gyda dull Cymru gyfan yn bwysig.

41. Gofynnodd Julia Cherrett i'r Gweinidog am ei barn ar y trafferth i ddenu doniau newydd a'r her o ran ehangu cyrhaeddiad CNC ar recriwtio ac ymgysylltu ar yr amgylchedd. Esboniodd y Gweinidog fod rhaglen newid ymddygiad ar fin cael ei lansio yng Nghymru,

a fyddai'n estyn allan i gymunedau mwy amrywiol ac yn ymgysylltu â chyfleoedd yn ymwneud â chysgodi, mentora ac interniaethau. Byddai gan CNC rôl bwysig o ran cefnogi'r ymgyrch. Roedd bwriad hefyd i edrych yn fewnol ar broses penodiadau cyhoeddus o ran y mater hwn.

Eitem 7b: Cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2023-2030 yn Ffurfiol

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni;

Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Trawsnewid Digidol; Lynette Bowley, Uwch Ymgynghorydd Arbenigol, y Cyfryngau

42. Cyflwynwyd yr eitem gan y Prif Weithredwr. Diolchwyd i'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol, y Tîm Arwain a phawb a oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith. Bu'n broses fanwl, yn cynnwys dadlau brwd a thrafodaeth drylwyr. Roedd y Cynllun yn perthyn i'w gyfnod, ar ôl cynadleddau COP15 a COP26, a chyhoeddiad diweddar y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC). Byddai'r weledigaeth, 'Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'i Gilydd', angen cefnogaeth pawb. Cydnabuwyd bod hyn yn her sylweddol, gyda thrafferthion parhaus llifogydd, tanau gwyllt, sychder, a cholli cynefinoedd a rhywogaethau yn erbyn cefndir o bryderon economaidd a phryderon rhyngwladol. Byddai CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill tuag at dargedau 2030 gyda golwg hirdymor i 2050. Roedd y gwaith o gynllunio ar gyfer cyflawni eisoes wedi dechrau a disgrifiwyd y newidiadau mewnol arfaethedig yn CNC. Byddai pob aelod o'r Tîm Gweithredol yn arwain ar faes allweddol o fewn y Cynllun – Llygredd, Natur, Hinsawdd, Adnoddau, Trawsnewid. Argymhellwyd y Cynllun Corfforaethol i'r Bwrdd ac yna i'r Gweinidog i'w gymeradwyo.
43. Cynigiodd y Cadeirydd sylwadau am y trafodaethau ar gyflawni'r Cynllun yng nghyfarfod preifat y Bwrdd. Roedd angen her sylfaenol i'r ffordd yr oedd CNC yn gweithredu o fewn y fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, yn benodol ynghylch y diwylliant a meddwl yn wahanol, gan fabwysiadu agwedd Cymru gyfan a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill o ran gweithredu.
44. Nododd y Gweinidog fod y Cynllun yn adlewyrchu'r Llythyrau Cylch Gwaith a'r trafodaethau a oedd wedi digwydd. Roedd y berthynas rhwng CNC a Llywodraeth Cymru wedi trawsnewid a datblygu'n berthynas waith effeithiol, agored a gonest. Cafodd y gwaith ar yr Adolygiad Sylfaenol ei ganmol ac roedd wedi helpu LIC i drefnu'r gyllideb yn fwy effeithiol.
45. Ystyriwyd y Cynllun Corfforaethol newydd gan aelodau'r Bwrdd, gan ddod i'r casgliad ei fod yn uchelgeisiol ac yn ysbrydoledig. Nodwyd y gwaith ar glymu agenda'r Gweinidog gydag agendâu eraill o fewn y Llywodraeth. Pwysleisiwyd hefyd y byddai angen help gyda'r newid trawsnewidiol sydd ei angen. Nodwyd y trafodaethau ar rôl Cynlluniau Lies y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyfarfod preifat y Bwrdd.
46. Byddai angen dull radical o ymdrin ag amrywiaeth o faterion, er enghraifft, na ellid amddiffyn pawb rhag llifogydd, a chroesawyd cefnogaeth y Gweinidog ar hyn. Amlygwyd pwysigrwydd arwain trwy esiampl, a thynnwyd sylw at rôl LIC yn hyn o beth. Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd cydweithio a dull unedig ar faterion anodd i sicrhau newid, er enghraifft, gyda llifogydd. Tynnwyd sylw at agenda radical LIC, er enghraifft, gyda'r Adolygiad Ffyrdd, y Ddeddf Aer Glân a chyflwyno terfynau cyflymder o 20mya. Cydnabuwyd rôl Prif Weinidog Cymru o ran sbarduno newid tua'r dyfodol. Disgrifiodd y Gweinidog ei rhesymau dros fentro i fyd gwleidyddiaeth a'i hawydd i weld newid

cadarnhaol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyllid priodol gan Lywodraeth y DU a disgrifiwyd esiampyl y materion yn ymwneud â datblygiadau'r Môr Celtaidd.

47. Nodwyd y trafodaethau a oedd wedi digwydd ynghylch naws y Cynllun Corfforaethol, yn enwedig a oedd yn rhy besimistaidd. Croesawodd aelodau'r Bwrdd agwedd y Gweinidog at bwysigrwydd dweud y gwir wrth y rhai mewn grym a gonestrwydd wrth hwyluso trafodaethau agored.
48. Byddai'n bwysig dod â byd natur i graidd y drafodaeth ar yr economi. Gwnaeth y Gweinidog sylwadau am bwysigrwydd hyrwyddo'r economi gylchol gan dynnu sylw at y llwyddiant o ailgylchu a'i rôl wrth ddenu swyddi a budd economaidd i Gymru. Disgrifiodd y Prif Weithredwr gyfarfod gyda'r grŵp yn Aberdaugleddau i drafod yr agenda datgarboneiddio. Cydnabuwyd yr angen am newid rheoleiddiol ond gyda thrawsnewid cyfiawn.
49. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at y rôl y gallai ffermwyr ei chymryd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac anogodd LIC i edrych ar fwy o ffyrdd o weithio gyda'i gilydd. Roedd y Gweinidog yn cytuno ynghylch rôl bwysig ffermwyr ond cydnabu bwysigrwydd ffermwyr yn cydweithio i rannu arferion gorau a datblygu dulliau gweithredu gyda'u cymheiriaid, ar y cyd â deddfwriaeth fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a pholisïau economaidd.
50. Diolchodd y Cadeirydd yn ddiffuant i'r Gweinidog am ei phresenoldeb yng nghyfarfod y Bwrdd.
51. Gadawodd y Gweinidog y cyfarfod.
52. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Corfforaethol i 2030.

WEDI'I GYMERADWYO: Y Cynllun Corfforaethol i 2030

Eitem 8: Y diweddaraf ar eogiaid

Cyflwynydd: Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd

53. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, gan bwysleisio ei fod yn ddarn arall o dystiolaeth i ddangos nad oedd natur a phobl yn ffynnu gyda'i gilydd. Esboniodd yr Athro Steve Ormerod fod y dystiolaeth a gyflwynwyd wedi cael ei gomisiynu ac yn ddarn o wyddoniaeth pysgodfeydd cymhleth. Cyfeiriodd yr Athro Ormerod at yr eog fel organeb eiconig, hynod warchoddedig, economaidd bwysig, ac roedd y gwaith o'i warchod yn methu ym meysydd tirwedd, dŵr mewndirol a rheoli morol. Roedd hyn, ynghyd ag effaith newid hinsawdd, yn golygu bod yr eog yn wynebu difodiant mewn gwahanol afonydd yng Nghymru. Roedd cyfle i wyrdroi'r sefyllfa ond roedd gofyn gweithredu ar frys.
54. Rhoddodd y Prif Ymgynghorydd, Pysgodfeydd, gyflwyniad i'r Bwrdd ar ganfyddiadau Adroddiad Tystiolaeth 674, 'The identification and characterisation of small salmon populations to support their conservation and management' gan Carlos Garcia De Leaniz a Nigel Milner. Tynnwyd sylw at y ffaith fod eogiaid, ynghyd â rhywogaeth gysylltiedig y sewin neu frithyll y môr, yn ddangosydd allweddol o ansawdd amgylcheddol. Nodwyd eu bod yn nodwedd o nifer o safleoedd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) dynodedig, ac roedd rhwymedigaethau rhyngwladol o ran eu rheoli. Cydnabuwyd eu bod yn bwysig yn economaidd ac yn gymdeithasol, ac yn dirywio nid yn unig yng Nghymru ond ar draws Ynysoedd Prydain a Gogledd yr Iwerydd. Yn sgil gostyngiad yn eu niferoedd yng Nghymru, roedd yr Adroddiad yn ystyried pryd y byddai'r pwynt tyngedfennol yn cael ei gyrraedd. Tanlinellwyd bod yr un sefyllfa hefyd yn wir o ran rhywogaethau eraill fel y gylfinir a llygod y dŵr. Mae'r gostyngiad mewn niferoedd yn eu gwneud yn fwy bregus

oherwydd amodau fel hafau poeth, gaeafau cynnes, materion rheoli tir a materion ansawdd dŵr. Esboniwyd y gostyngiad mewn amrywiaeth genetig a ffitrwydd a oedd yn dilyn.

55. Amcangyfrifwyd na fyddai unrhyw eogiaid yn 15 o'r 22 prif afon eog yng Nghymru yn ystod y deng i 20 mlynedd nesaf. Mae'r rhagolygon yn ddigalon, a dyma'r tro cyntaf i'r term 'difodiant' gael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, amlygodd yr Adroddiad fod lle i obeithio a bod rhai o'r ymyriadau posibl yn cael eu hesbonio. Disgrifiwyd y Cynllun Gweithredu, gydag atebion sy'n seiliedig ar natur yn rhan annatod ohono. Byddai cyllid cyfalaf o'r gronfa Argyfwng Natur a Hinsawdd (NACE) yn helpu i fynd i'r afael ag ystod eang o faterion, ynghyd â phrosiectau sy'n mynd i'r afael â mwyngloddiau metel, gwaith adfer mawn a phlannu coed. Tynnwyd sylw at blannu coed mewn parthau torlannol, yn enwedig sicrhau'r goeden gywir yn y lle cywir. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithredu nawr a byddai'r Cynllun Gweithredu Eogiaid a Sewin yn dod yn rhan annatod o waith CNC a thu hwnt.
56. Ystyriodd y Bwrdd y diweddariad, gan nodi'r cynnwys â phryder dwys, a bod hyn yn crynhoi'r hyn a oedd yn mynd o'i le yn yr amgylchedd dŵr croyw a morol. Cydnabuwyd natur argyfyngus y sefyllfa. Tynnwyd sylw at y sgysiau yn gynharach yn y cyfarfod ynghylch dweud y gwir wrth y rhai mewn grym.
57. Cafwyd trafodaeth ar sut i gyrraedd yr holl gynulleidfa oedd targed ar y mater hwn. Pwysleisiwyd pwysigrwydd dull ar y cyd.
58. Ystyriwyd y mesurau y gellid eu cymryd i wella'r sefyllfa, er enghraifft, o amgylch plannu coed ar hyd glannau afonydd ar gyfer cysgod, lleihau llygredd a chynefinoedd strwythurol. Awgrymwyd y gallai perchnogion torlannau gael eu hysgogi i weithredu ar fyrder. Amlygwyd rôl Ystad CNC yn hyn o beth. Cynigiodd yr Athro Calvin Jones, fel Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir, y gallai'r Pwyllgor ystyried y wybodaeth a oedd ar gael ar gynefin torlannol CNC.

CAM GWEITHREDU: Trafodaeth ar gyflwr cynefin torlannol Ystad CNC i gael ei ychwanegu at ragolwg y Pwyllgor Ystad Tir.

59. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio gydag eraill, fel tiffeddianwyr, Coed Cadw ac Ymddiriedolaethau Afonydd yng Nghymru. Byddai'n bwysig deall yr heriau i berchnogion tir, ac amlygwyd rôl arian grant wrth gefnogi gwaith.
60. Cydnabuwyd bod hon yn sefyllfa gymhleth ond hefyd yn astudiaeth achos dda ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd, gyda materion cyfun hinsawdd, byd natur a llygredd yn dod at ei gilydd. Gellid defnyddio'r stori rymus i ymgysylltu a sbarduno pobl i weithredu, gan harneisio dicter ynghlwm wrth y materion i greu ymgyrch. Pwysleisiwyd yr her i feddwl yn wahanol a chynnig syniadau radical. Bu'r Bwrdd yn trafod sut y gallai hyn ddigwydd ac awgrymwyd rhai enghreifftiau o feddwl radical. Cafodd y gwaith gan y tîm addysg mewn ysgolion ar afonydd ac eogiaid ei esbonio. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Ymgynghorydd, Pysgodfeydd, ddychwelyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf gydag awgrymiadau ar ddull radical o fynd i'r afael â helynt yr eog. Gofynnodd Zoe Henderson, Cadeirydd y WLMF, am ddarparu'r cyflwyniad i gyfarfod nesaf Is-Grŵp WLMF ar Lygredd Amaethyddol.

CAM GWEITHREDU: Y Prif Ymgynghorydd, Pysgodfeydd, i ddychwelyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf gydag awgrymiadau ar ddull radical o fynd i'r afael â helynt yr eog.

CAM GWEITHREDU: Y cyflwyniad ar drafferthion eogiaid i gael ei gyflwyno i Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol.

Eitem 9: Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes Chwarter 3

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol; Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni

61. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes Chwarter 3. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Eglurwyd bod statws Coch Melyn Gwyrdd dau fesur yn Chwarter 3 yn Coch, ond bod y rhain yn wahanol i'r ddau fesur Coch a nodwyd yn Chwarter 2. Roedd y ddau fesur Coch ar gyfer Chwarter 3 yn debygol o fod yn Goch o hyd ar ddiwedd y flwyddyn. Ystyriwyd y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd gan y Tîm Gweithredol yn yr hydref ond byddai angen iddynt gyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol newydd ac felly roeddent yn destun oedi. Roedd y mesur Coch arall ar 'gyflwyno rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol' yn gofyn am waith sicrhau ansawdd ychwanegol ar yr adolygiad maetholion. Ni ddefnyddiwyd unrhyw statws Coch Melyn Gwyrdd i'r mesur ar 'waith i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau' oherwydd newidiadau yn amserlenni arfaethedig Llywodraeth Cymru. Eglurwyd y mesurau Perfformiad Mewnol. Roedd tri dangosydd yn Goch, er bod disgwyl i adroddiadau am achosion lechyd a Diogelwch y bu ond y dim iddynt ddigwydd fod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd absenoldeb wedi symud i Goch yn Chwarter 3. Roedd y cynnydd yn y gyfradd absenoldeb salwch wedi'i nodi gan y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid a byddai gwaith ymchwil manwl yn digwydd ar hyn.
62. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys y diweddariad. Cwestiynwyd pryd yr oedd disgwyl i'r mesur ar ansawdd dŵr symud o Goch. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod disgwyl i hyn ddigwydd o chwarter cyntaf 2023/24.

WEDI'I GYMERADWYO: Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes Chwarter 3 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Chwarter 3

Eitem 10: Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-23 a Thrafodaeth

Cyflwynwyr: Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Sefydliadol, Shaheen Sutton, Arbenigwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

63. Cyflwynwyd yr eitem gan Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu, gan nodi bod amser wedi'i dreulio'r llynedd ar ddatblygu'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, a'i bod bellach yn cael ei gweithredu a'i hymgorffori yn y rhaglen waith Pobl. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys manylion am y cynnydd sydd wedi ei olrhain yn erbyn y Cynllun Gweithredu. Tynnwyd sylw at waith y rhwydweithiau staff. Diolchwyd i Zoe Henderson am ei gwaith a'i chefnogaeth ar y Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant.
64. Cynigiodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, sylw ar yr Adroddiad gan nodi bod dirywiad bach wedi bod yn y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Roedd PCC wedi adolygu'r wybodaeth ac o'r farn bod hynny'n rhesymol oherwydd y niferoedd bach dan sylw a bod hyn weithiau'n digwydd rhwng blynyddoedd. Roedd rhai cwestiynau diddorol am beth allai'r Bwrdd ei wneud i gefnogi'r math hwn o waith. Byddai trafodaethau'n dilyn mewn meysydd fel rolau'r Cyfarwyddwr Cyswllt.
65. Holwyd y cwestiynau canlynol i'r Bwrdd gan y Pennaeth Datblygu Sefydliadol: Sut gallai'r Bwrdd gefnogi Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhellach yn CNC? A oedd unrhyw enghreifftiau y gellid eu rhannu o arfer gorau i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth?

66. Gofynnodd y Cadeirydd am greu sesiwn arbennig er mwyn cael digon o amser i ganolbwyntio a datblygu'r themâu ynghlwm wrth y mater hwn. Cytunodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gynnwys sesiwn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant arbennig yn Rhaglen Datblygu'r Bwrdd.

CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gynnwys sesiwn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant arbennig yn Rhaglen Datblygu'r Bwrdd

67. Soniodd Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, am bwysigrwydd cefnogaeth weithredol gan y Bwrdd a gwerth y Fforwm, gan nodi'r trafodaethau buddiol, agored a'r cyfle i dynnu sylw at waith gwahanol grwpiau. Amlygwyd pwysigrwydd y gwaith a wnaed i gynyddu'r ddealltwriaeth o niwroamrywiaeth a bu'r hyfforddiant ar y mater hwn yn oleuedig iawn. Byddai'n bwysig peidio â chyfyngu trafodaeth i'r naw nodwedd warchoddedig, gan fod Cynhwysiant ac Amrywiaeth yn berthnasol i bawb yn y ffordd y gellid cynnwys pob person gwahanol. Byddai angen ystyried canlyniadau anfwriadol creu grwpiau newydd sydd wedi'u heithrio (er enghraifft, cymunedau gwledig) yn ofalus ynghyd ag ymwybyddiaeth o agweddau ehangach Amrywiaeth a Chynhwysiant.

68. Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Zoe Henderson ymuno â'r sesiwn drafod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y dyfodol a fyddai'n cael ei chynnal ar ôl diwedd ei phenodiad Bwrdd a nododd y byddent yn chwilio am olynydd i'w rôl fel Cadeirydd Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

CAM GWEITHREDU: Zoe Henderson i gael ei gwahodd i ymuno â sesiwn drafod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y dyfodol

69. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Cwestiynwyd y dull o ddeall trosiant staff, yn enwedig lle'r oedd staff o gefndiroedd mwy amrywiol. Awgrymwyd y gellid gwneud mwy fel rhan o gyfweiliadau gadael i ddeall profiad byw pobl er mwyn gweithredu'n rhagweithiol. Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygiad Sefydliadol y byddai hyn yn rhan o'r gwaith dros y chwe mis nesaf.

70. Ystyriwyd y dull gweithredu sy'n wynebu tuag allan. Gellid rhannu'r arfer gorau ar weithio gyda chymunedau nad oedd fel arfer yn ymgysylltu â gwaith CNC. Awgrymwyd bod cyfle i gysylltu'r meddylfryd radical ar gefnogi poblogaeth yr eogiaid ac ymgysylltu â gwahanol gymunedau. Tynnwyd sylw at yr angen i ddatblygu negeseuon allanol ar y wefan.

71. Cafodd yr addewid gwrth-hiliaeth ei drafod, a holwyd beth allai CNC wneud yn hyn o beth, yn enwedig o ran olrhain profiadau gyrfa. Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod hwn yn un o'r meysydd sy'n cael eu hystyried er mwyn cael sicrwydd gan fod cynnydd yn ddangosydd pwysig o gynhwysiant. Trafodwyd recriwtio a chydabuwyd pwysigrwydd cynnig cefnogaeth a chyfleoedd rhagweithiol iddynt.

72. Cynigiodd Geraint Davies, Cadeirydd NAFW, ei gefnogaeth wrth ddatblygu mynediad i gefn gwlad, a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir.

73. Cymeradwywyd Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-23 gan y Bwrdd.

WEDI'I GYMERADWYO: Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-23

Eitem 11: Adroddiad Chwarter 3 Lles, Iechyd a Diogelwch

Cyflwynydd: Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Sefydliadol; Phil Mostyn, Prif Ymgynghorydd Arbenigol, Lles, Iechyd a Diogelwch

74. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol. Esboniwyd hyn fel Adroddiad rheolaidd, a oedd hefyd yn destun craffu gan y PCC. Tynnwyd sylw at ail-ardystio'r safon ryngwladol ar gyfer iechyd a diogelwch galwedigaethol, ISO 45001, ynghyd ag adolygiad cadarnhaol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) mewn perthynas ag archwiliadau coedwigaeth, a oedd yn rhoi sicrwydd da i'r Bwrdd. Wrth edrych tua'r dyfodol, byddai'r gwaith yn parhau ar fonitro ac adrodd gweithredol, a hefyd achosion fu bron â digwydd. Roedd gwaith sylweddol yn cael ei gynnal ar hyfforddiant a datblygu, gan gynnwys dadansoddi anghenion hyfforddi. Roedd gwaith manwl yn digwydd ar faterion iechyd meddwl hefyd.
75. Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol ddiweddiariad i'r Bwrdd ar ddau Adolygiad o Ddigwyddiadau Difrifol a oedd wedi eu comisiynu. Adroddwyd na fu digwyddiadau RIDDOR (Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Rheoliadau Digwyddiadau Peryglus) na digwyddiadau Amser Coll yn Chwarter 3, a hefyd fod adroddiadau am achosion a fu bron â diwyd wedi cynyddu yn Chwarter 3. Roedd CNC wedi llwyddo i gadw Gwobr Arian y Safon Iechyd Corfforaethol. Roedd yr aseswr wedi bod yn canmol y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig a lles staff CNC. Roedd y tîm Lles wedi canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r argyfwng costau byw ac wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ariannol. Cafodd y tîm Dysgu a Datblygu eu cyfnod prysuraf yn Chwarter 3, gan ddatblygu cyrsiau yn cynnwys hyfforddiant ar ddelio â sefyllfaoedd anghyfeillgar. Roedd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch yn gweithio ar y data am atgyfeiriadau iechyd meddwl gyda'r tîm Rheoli Pobl er mwyn deall y manylion. Roedd y PCC yn gyfrifol am hyn.
76. Bu'r Bwrdd yn ystyried cynnwys yr Adroddiad a holwyd beth oedd ei angen i gyflawni Gwobr Aur Safon Iechyd Corfforaethol. Esboniodd Pennaeth Datblygu Sefydliadol yr adborth a gafwyd ar hyn gan yr aseswr, gan nodi bod CNC eisoes yn agos at safon y Wobr Aur.

WEDI'I GYMERADWYO: Adroddiad Chwarter 3 Lles, Iechyd a Diogelwch

Eitem 12: Adolygiad o Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

77. Cyflwynwyd yr eitem gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, ac ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Nodwyd bod rhai o'r newidiadau yn digwydd ar unwaith ac y bydd eraill yn dilyn yn ddiweddarach. Nodwyd hefyd y byddai Cadeirydd newydd y Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei ddewis yn dilyn trafodaethau cynharach.

78. Cymeradwyodd y Bwrdd aelodaeth arfaethedig Pwyllgor y Bwrdd a'r Fforwm.

CAM GWEITHREDU: Cytuno ar Gadeirydd newydd i'r Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

WEDI'I GYMERADWYO: Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd a'r Fforwm yn unol â'r manylion yn y papur

Eitem 13: Cylch Gorchwyl

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

79. Cyflwynwyd yr eitem gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, ac ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen.
80. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd y dylai cwmpas a diben Cylch Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Corfforaethol newydd.

CAM GWEITHREDU: Cwmpas a diben Cylch Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Corfforaethol newydd

WEDI'I GYMERADWYO: Y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig, Pwyllgor Ystadau Tir a'r Pwyllgor Cyllid

Eitem 14: Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

81. Cyflwynwyd yr eitem gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, ac ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen.
82. Adolygwyd a nodwyd y Rhagolwg gan y Bwrdd.

Eitem 15: Unrhyw Fater Arall

83. Nododd y Prif Weithredwr y cyhoeddiad diweddar gan LIC am y ddau borthladd rhydd i gael eu sefydlu yn Aberdaugleddau a Phort Talbot, ac Ynys Môn, a fyddai'n ardaloedd o dwf ac egni. Byddai angen i CNC ymateb, a byddai angen i'r fframwaith rheoleiddio ddatblygu ochr yn ochr â hyn.
84. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch ei bresenoldeb yn y sesiwn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Chlwstwr Diwydiannol De Cymru. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyn wrth symud tuag at ddatgarboneiddio. Roedd timau CNC yn rhan o'r digwyddiad, a byddai'r Bwrdd yn cael diweddariadau ar y materion. Soniodd aelodau'r Bwrdd am y gwaith sydd i'w wneud i gyflawni carbon sero erbyn 2040, gan dynnu sylw at y system gyfannol y byddai ei hangen er mwyn cyflawni hyn.
85. Nododd y Prif Weithredwr benodiad Prif Swyddog Gweithredol newydd Asiantaeth yr Amgylchedd.
86. Tynnodd yr Athro Steve Ormerod sylw at Gynhadledd Dŵr y Cenhedloedd Unedig gan argymhell y dylai rhai o'r gwersi o hyn ddod gerbron y Bwrdd yn y dyfodol. Roedd syniadaeth y Cenhedloedd Unedig ar ddŵr yn ymwneud yn gynyddol â chymryd golwg gyfannol i greu cyswllt rhwng popeth o'r cyflenwad dŵr yfed i drin dŵr gwastraff a diogelu dŵr wyneb. Byddai'n bwysig deall beth fyddai hyn yn ei olygu i CNC.

CAM GWEITHREDU: Canlyniadau Cynhadledd Dŵr y Cenhedloedd Unedig i'w hychwanegu at ragolwg y Bwrdd yn un o gyfarfodydd y dyfodol

87. Bu'r Bwrdd yn ystyried y cyfarfod. Roedd croeso mawr i'r cydweithwyr a'r lleisiau newydd. Tynnwyd sylw at y gwerth o ran lle ac amser i alluogi sgysiau buddiol. Argymhellwyd y dylid cynnwys amser o fewn Rhaglen Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ar strwythur cyfarfodydd i alluogi'r sgysiau hynny i ddigwydd.

CAM GWEITHREDU: Eitem i'w chynnwys yn Rhaglen Diwrnod Datblygu'r Bwrdd i ystyried strwythur cyfarfodydd y Bwrdd i alluogi trafodaethau buddiol

88. Diolchodd y Cadeirydd yn ddiffuant i Karen Balmer a Zoe Henderson am eu cefnogaeth a'u cyfraniad anhygoel yn ystod eu cyfnod fel aelodau o'r Bwrdd.

- Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus -

Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

1. Derbyniwyd cwestiynau gan Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru. Roedd yr ymatebion hynny'n cynnwys:
 - a) *Mae pob un o gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn cael eu cofnodi ond ddim ar gael i'r cyhoedd ar ôl y digwyddiad. Mae darparu mynediad cofnodedig i ddigwyddiadau cyhoeddus bellach yn arfer safonol os yw tryloywder agored yn cael ei wir werthfawrogi gan ein sefydliadau. Mae rhoi mynediad i bobl a chymunedau sydd ddim wedi ymddeol yn bwysig iawn.*
 - b) *A all y Prif Swyddog Gweithredol gynnig crynodeb a diweddariad statws o fethiant trychinebus carthffos Dŵr Cymru yn y Taf ddeng niwrnod yn ôl?*
 - *Achos*
 - *Effaith*
 - *Risgiau yn y dyfodol*
 - *Risgiau mewn safleoedd eraill*
 - *Tystiolaeth o esgeulustod gydag adroddiadau o hysbysiadau cynharach*
 - c) *Mae ymwybyddiaeth o PFAS wedi ymddangos ar yr agenda gyda'r gwaith diweddar gan Watershed Investigations. Y fectorau allweddol ar gyfer PFAS yw gorlif carthffosiaeth cyfunol a gwasgaru "cacen garthion" ar dir, rhywbeth a gadarnhaodd Dŵr Cymru wrthy y mis diwethaf nad oes ganddyn nhw unrhyw syniad lle mae'n cael ei wasgaru.*
 - d) *A all CNC roi rhagamcaniad/asesiad, gyda'r polisïau a'r broses gyfredol sydd ar waith, beth yw effaith PFAS sy'n mynd i'r amgylchedd yng Nghymru? A allech chi roi sylw i ddŵr yfed sy'n cael ei bwmpio allan o afonydd sydd â lefelau difrifol o orlif carthffosiaeth cyfunol? e.e. Afon Wysg a Chronfa Llandegfedd.*
2. Ymatebodd y Cadeirydd i'r cwestiwn cyntaf gan nodi y byddai angen i'r Bwrdd drafod ac ystyried y mater o gofnodi ymhellach.
3. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i'r ail gwestiwn, gan esbonio bod aelodau CNC yn rhannu'r un pryderon wrth fynychu digwyddiadau fel hyn. Bu methiant yn y brif garthffos a oedd wedi arwain at garthion yn gollwng i afon Taf. Dargyfeiriwyd y garthffos ar unwaith, er bod problem gyda'r gwaith atgyweirio cychwynnol. Roedd y cwmni'n ymchwilio i'r rheswm dros fethiant y bibell, gan nad oedd yr achos yn hysbys eto. Cymerwyd samplau o ansawdd y dŵr. Rhagwelwyd y byddai unrhyw effaith wedi bod yn dymor byr ac nad oedd pysgod nac infertebratau marw wedi eu canfod. Roedd gwaith yn parhau gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod y risg yn cael ei leihau yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfod arferol gyda chyfarwyddwyr y cwmni dŵr ac roedden nhw wedi nodi eu mesurau ar y safle hwn a'r seilwaith ehangach, a buddsoddiad y Cynllun Rheoli Asedau mewn safleoedd eraill. Cydnabuwyd risgiau mewn safleoedd eraill. Nodwyd effaith digwyddiad diweddar ym Magwyr, gan gynnwys effeithiau ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ehangach. Nid oedd yn briodol gwneud sylw ar y dystiolaeth o esgeulustod ar hyn o bryd, gan y byddai hyn yn rhan o'r ymchwiliad.
4. Croesawodd Mr Waters drafodaeth y Bwrdd yn gynharach yn y cyfarfod ar y mater hwn, gan dynnu sylw at y ffaith na ddylai'r cwmnïau dŵr ddefnyddio'r esgus eu bod yn delio â system garthffosiaeth Fictoraidd.
5. Ymatebodd y Pennaeth Cynllunio Datblygu a Gwasanaethau Morol i drydydd a phedwerydd cwestiwn Mr Waters. Esboniwyd sylweddau polyfflŵroalcyl a pherfflŵroalcyl (PFAS) fel grŵp mawr o gemegau fflworin synthetig sy'n cael ei defnyddio mewn ystod eang o gynnyrch wedi'i weithgynhyrchu. Roedd rhai o'r defnyddiau hyn wedi bod yn destun rheolaethau deddfwriaethol, ond roedd defnyddiau eraill yn parhau. Roedd CNC yn monitro ac yn adrodd am PFAS o dan y Rheoliadau Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Cafodd asid perfflŵrooctanoig (PFOA) ei fonitro hefyd. Oherwydd bod PFAS yn

biogrynhoi, cyfeiriodd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr at fonitro mewn samplau biolegol, fel pysgod neu bysgod cregyn. Esboniwyd y terfyn ar gwmpas y monitro ond nodwyd nad oedd yr un o'r samplau wedi methu safonau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hyd yma. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu dulliau dadansoddi labordy ar gyfer ystod fwy o PFAS a byddai adolygiad o holl ddata PFAS a gedwir gan CNC yn cael ei gynnal i nodi unrhyw anghenion tystiolaeth ychwanegol. Disgrifiwyd yr ychwanegiadau posibl. Roedd asesiadau risg wedi digwydd ac roedd monitro wedi'i dargedu ar gyfer safleoedd penodol yn cael ei ystyried.

6. Eglurwyd bod CNC yn rhan o weithgor trawslywodraethol ar PFAS a'u bod mewn trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill fel yr Arolygiaeth Dŵr Yfed i rannu tystiolaeth a llunio polisi cyson. Cymerodd CNC ran hefyd yn Rhaglen Ymchwiliadau Cemegol 4 a fyddai'n ymchwilio i ffynonellau a chylchu PFAS o ffynonellau dŵr gwastraff a chylchu yn yr amgylchedd, megis gwasgaru i dir. Amlygwyd nad oedd offeryn deddfwriaethol ar gyfer rheoli unrhyw ddefnydd o PFAS ar dir nac mewn unrhyw dir/pridd. Eglurwyd bod y cemegyn mor hollbresennol fel y byddai'n cael ei nodi yn y rhan fwyaf o daeniadau. Cydnabuwyd bod y rheolaethau rheoleiddio presennol ynghylch slwtsh sy'n cael ei wasgaru ar dir amaethyddol yn hen ac nad oeddent yn asesu ar gyfer cemegau cymhleth. Mae Lloegr a'r Alban yn diwygio'r rheolaethau rheoleiddiol hyn ar hyn o bryd, ac mae CNC yn trafod y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru.
7. Byddai CNC yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau dŵr sicrhau bod eu Rhaglenni Amgylchedd Cenedlaethol yn barod ar gyfer heriau yn y dyfodol, gan gynnwys PFAS. Roedd PFAS wedi codi fel blaenoriaeth i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI) i ddiogelu cyflenwadau dŵr cyhoeddus, felly byddai CNC yn chwilio am fuddsoddiad Adolygiad 24 (PR24) gan gwmnïau dŵr i fodloni'r DWI hwn.
8. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Waters am ei gwestiynau a chadarnhaodd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

CAM GWEITHREDU: Ymateb ysgrifenedig i gwestiynau a godwyd yn y Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus i'w hanfon at Mr Kim Waters.

9. Derbyniwyd cwestiwn gan Harriet Alvis – Prif Swyddog Gweithredol, Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, a ddarllenwyd i'r Bwrdd gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd: *Roeddwn yn drist o glywed gan aelod o'r Bwrdd mai'r unig ffordd o gyflawni newid yn y gymuned amaethyddol yw wrth i rai ffermwyr gymell y rhai sydd y tu ôl iddyn nhw. Wrth gwrs, mae hynny'n rhan o gynnydd unrhyw newid, ac mae yna lawer o ffermwyr sy'n rhagweithiol ac yn meddu ar ffocws amgylcheddol ond rwy'n credu bod y datganiad hwn yn tynnu sylw at wendid CNC yn un o'ch cyfrifoldebau allweddol – gorfodi. Mae digon o ddata gennym bellach ar ffurf modelu SAGIS, ffigurau adroddiadau llygredd, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac ati i ddangos mai amaethyddiaeth yw'r prif gyfrannwr at ddirywiad ansawdd dŵr mewn llawer o'n dalgylchoedd gwledig, yn enwedig yn y gorllewin. Mae Dŵr Cymru yn dechrau cael eu dal yn atebol am eu rhan nhw, ac mae hynny'n ddigon teg, ond nid yw'n ymddangos bod yr un peth yn wir am amaethyddiaeth. A all y Bwrdd roi gwybod i fi pa mor aml ar gyfartaledd y gall pob fferm ddisgwyl ymweliad gan CNC? Peidiwch â chynnwys gwaith Prosiect Afonydd LIFE oherwydd prosiect tymor byr yw hwn nad yw'n cynnwys unrhyw asesiadau rheoleiddio allweddol megis capasiti a chyflwr cyfleusterau cadw slyri. Ail gwestiwn – beth yw cynlluniau CNC i wella cyfraddau ymweliadau fferm yn ogystal â gorfodi'r rheoliadau sylfaenol sy'n cael eu torri'n rheolaidd?*
10. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ymateb cyffredinol i'r cwestiwn. Cydnabuwyd y materion ehangach a nifer y cyfranwyr at ansawdd dŵr. Eglurwyd, yn y modd digwyddiad, bod yr ymateb yn ymwneud ag olrhain y ffynhonnell. Ar gyfartaledd,

roedd nifer isel o ymweliadau â ffermydd ar hyn o bryd, tua 1% mewn perthynas â Rheoliadau Dŵr Daear. Fodd bynnag, roedd sawl prosiect ar lawr gwlad, megis Prosiect Pedair Afon LIFE, sy'n cynnwys ymweliadau gweithredol a gwaith rhagweithiol yn y meysydd hyn fel rhan o'r prosiectau hyn, gan weithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr gan gynnwys ffermwyr. Mae Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol wedi dod i rym bellach, gydag adnoddau wedi dod i law CNC mewn perthynas â hyn. Byddai recriwtio ar gyfer tîm o tua 20 o staff yn digwydd, a'u swyddi'n canolbwyntio ar ymweliadau fferm mewn capasiti rheoleiddio.

11. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai ymateb ysgrifenedig manylach yn dilyn.

CAM GWEITHREDU: Ymateb ysgrifenedig i gwestiynau a godwyd yn y Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus i'w hanfon at Harriet Alvis

12. Cyfeiriodd Mr Waters at y cyflwyniad ar drafferthion yr eog a mynegodd ddicter ynghylch y sefyllfa, yn enwedig ynghylch gwybodaeth hirdymor am y mater, gan dynnu sylw at astudiaethau hanesyddol ar faterion llygredd ac arferion ffermio gwael. Mynegodd y farn bod y materion i fynd i'r afael â nhw yn rhai anodd, ond yn fater o wleidyddiaeth a pholisi yn hytrach nag ecoleg sylfaenol. Cynigiodd Mr Waters ei gymorth gyda dealltwriaeth, helpu i rannu gwybodaeth, a darparu tystiolaeth o arferion ffermio gwael a materion gorlif stormydd cyfunol.

13. Croesawodd y Cadeirydd gynnig Mr Waters o gymorth i ennyn diddordeb y cyhoedd a ddicter am y posibilrwydd o golli'r eog, ac anogwyd Mr Waters i gyflwyno manylion am y safleoedd llygredig yr oedd wedi'u disgrifio.

- Diwedd y Cyfarfod -

Cyfarfodydd Bwrdd

Rhif y Cam	Categori'r Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Para	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
16	Cyhoeddus	27/01/2023	7	32	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol FCS	CAM GWEITHREDU: FRMC i ystyried costau llawn yr Ardaloedd Draenio Mewnol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid	Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau; Rob Bell, Pennaeth Cyllid	05/07/2023	Parhaus	I'w ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ym mis Gorffennaf.
18	Cyhoeddus	27/01/2023	9	47	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol CSD	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu'r dull o ymdrin â sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd y Bwrdd sy'n seiliedig ar leoedd	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	27/04/2023	Parhaus	Gall perchennog y cam gweithredu newid
34	Cyhoeddus	23/03/2023	4	15	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Aelodau'r Bwrdd a'r Gweinidog i gael diweddariadau rheolaidd am gamau gorfodi	Nadia DeLonghi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin	29/06/2023	Parhaus	Gweler y nodiadau yng nghanam gweithredu 35
35	Cyhoeddus	23/03/2023	4	18	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Cyflwyniad ar y gwaith ar leihau llygredd i'w gyflwyno mewn cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol	Nadia DeLonghi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin	29/06/2023	Parhaus	Cytunodd i gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Nodwyd bod fformat y diweddariad hwn yn cael ei drafod gyda Ceri Davies a Gareth O'Shea
36	Cyhoeddus	23/03/2023	8	58	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol yr EPP	CAM GWEITHREDU: Trafodaeth ar gyflwr y cynefin glan afon ar Ystad CNC i'w hychwanegu at Ragolwg y Pwyllgor Ystad Tir	Yr Ysgrifenyddiaeth	31/03/2023	Wedi'i gwblhau	
37	Cyhoeddus	23/03/2023	8	60	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol yr EPP	CAM GWEITHREDU: Y Prif Ymgynghorydd, Pysgodfeydd, i ddychwelyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf gydag awgrymiadau ar ddull radical o fynd i'r afael â thrafferthion yr eog.	Ben Wilson, Prif Gyngorydd, Pysgodfeydd	29/06/2023	Parhaus	
38	Cyhoeddus	23/03/2023	8		Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol yr EPP	CAM GWEITHREDU: Y cyflwyniad am drafferthion yr eog i gael ei wneud i Fforwm Rheoli Tir Cymru	Bronwen Martin, Ysgrifenyddiaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru	14/04/2023	Wedi'i gwblhau	Ychwanegu at is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar y Rhagolwg Llygredd Amaethyddol
39	Cyhoeddus	23/03/2023	10	66	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gynnwys sesiwn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant arbennig yn Rhaglen Datblygu'r Bwrdd	Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Sefydliadol	27/04/2023	Parhaus	
40	Cyhoeddus	23/03/2023	10	68	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Zoe Henderson i gael ei gwahodd i ymuno â sesiwn drafod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y dyfodol	Yr Ysgrifenyddiaeth	29/06/2023	Parhaus	
41	Cyhoeddus	23/03/2023	12	77	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cytuno ar Gadeirydd newydd i'r Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	27/04/2023	Parhaus	
42	Cyhoeddus	23/03/2023	13	80	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cwmpas a diben Cylch Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Corfforaethol newydd	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	27/04/2023	Parhaus	
43	Cyhoeddus	23/03/2023	15	86	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Canlyniadau o Gynhadledd Dŵr y Cenhedloedd Unedig i gael eu hychwanegu at Ragolwg y Bwrdd ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol	Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol	27/04/2023	Wedi'i gwblhau	
44	Cyhoeddus	23/03/2023	15	87	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Eitem i'w chynnwys yn Rhaglen Diwrnod Datblygu'r Bwrdd i ystyried strwythur cyfarfodydd y Bwrdd i alluogi trafodaethau cyfoethog	Sarah Stacey, Pennaeth Datblygu Sefydliadol; Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	27/04/2023	Wedi'i gwblhau	
45	Cyhoeddus	23/03/2023	AC ATEB	8	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ymateb ysgrifenedig i gwestiynau a godwyd yn y sesiwn holi ac ateb gyhoeddus i'w anfon at Mr Kim Waters.	Rhian Jardine, Pennaeth DPAS a Gwasanaethau Morol	27/04/2023	Wedi'i gwblhau	
46	Cyhoeddus	23/03/2023	AC ATEB	11	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ymateb ysgrifenedig i gwestiynau a godwyd yn y sesiwn holi ac ateb gyhoeddus i'w anfon at Harriet Alvis.	Simon Neale a Nichola Salter	10/05/2023	Wedi'i gwblhau	

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Iau 18 Mai 2023	
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol – SESIWN GYHOEDDUS	
Cyfeirnod y Papur:	23-05-B04	
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr	
Paratowyd y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr	
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr	
Diben y Papur	Gwybodaeth	
Proses gymeradwyo/ymgyngori:	Cyfrifol: Pwy sydd wedi datblygu'r papur/broses a phwy sydd wedi cyfrannu ato?	Cynnwys wedi'i ddarparu gan yr holl gyfarwyddiaethau
	Atebol: Pwy sy'n atebol am y gymeradwyaeth derfynol? Pwy fydd neu sy'n cael cais i'w gymeradwyo?	Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon
	Ymgynghori: Wedi ymgynghori â phwy hyd yma? Lle mae angen cymeradwyaeth, a gafwyd hyn? A fydd angen ymgynghoriad pellach?	Amherthnasol
	Hysbysu: Pwy sydd wedi cael gwybod neu pwy sydd angen	Amherthnasol

	rhagor o wybodaeth am y gwaith?	
Crynodeb	Bwriad y papur yw codi ymwybyddiaeth o'r materion dan sylw	

Cyflwyniad

1. Uchafbwynt y mis diwethaf, heb os, oedd cymeradwyo a lansiad meddal ein Cynllun Corfforaethol newydd. Cynhaliwyd gweminar i'r holl staff ar 28 Mawrth, gyda gweminarau dilynol yn canolbwyntio ar y tri Amcan Llesiant. Mae arweinwyr a rheolwyr tîm bellach yn cael eu hannog i drafod cynnwys y Cynllun Corfforaethol â'u timau, dod â'u cynllun yn fyw a nodi amcanion ac ymrwymadau ar lefel tîm. Bydd adborth yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio i greu sesiynau ymgynnull lleol i ymgysylltu ledled Cymru, er mwyn i gydweithwyr rannu eu meddyliau a'u syniadau a chlywed gan fwy o uwchreolwyr – gan gynnwys y Tîm Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd lle bynnag y bo modd – am ein camau nesaf wrth gyflawni'r cynllun. Mae cynlluniau ar droed i gynnal lansiad ffurfiol yn y Senedd ar 6 Mehefin.

Staff uwch

2. Mae Ian Mowatt bellach wedi dechrau ar ei swydd fel Pennaeth Caffael a Chontractau mewn Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol. Mae Vernon Lambert wedi'i benodi'n barhaol i swydd Rheolwr Caffael. Ym maes Gweithrediadau, rydym wedi cwblhau'r cyfweiliadau ar gyfer swydd newydd Pennaeth Prosiectau Strategol. Byddwn mewn sefyllfa i gyhoeddi enw'r ymgeisydd llwyddiannus erbyn i'r Bwrdd gyfarfod ym mis Mai. Bydd cyfweiliadau wedi eu cynnal ar gyfer Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru erbyn hynny hefyd. Rwy'n ddiolchgar i gyfraniadau Rosie Plummer a Steve Ormerod yn yr ymgyrchoedd hyn. Roedden ni'n aflwyddiannus yn y rownd gyntaf o recriwtio ar gyfer Pennaeth Gweithrediadau De Orllewin Cymru felly bydd yn cael ei hysbysebu'n allanol nawr.

Ymgysylltu

3. Wrth i'r tywydd wella, rwyf wedi bod yn crwydro tipyn, yn treulio amser gyda thimau gwahanol ac mewn swyddfeydd gwahanol. Cafodd Rosie Plummer a minnau ddiwrnod gwych gyda Pete Stanley, Uwch Gynghorydd Arbenigol, a'r tîm Mwyngloddiau Metel Segur ym mis Mawrth. Ymunodd Andy Fraser a Clare Fernandes o Lywodraeth Cymru, a Lisa Pinney a chydweithwyr o'r Awdurdod Glo â ni hefyd ar ymweliad â mwyngloddiau Frongoch a Traverse.

4. Ynghyd â Geraint Davies a Pete Fox, cefais y pleser o fynychu agoriad ffurfiol yr arglawdd llifogydd a adferwyd yn Llyn Tegid ddiwedd mis Mawrth. Mynychwyd y digwyddiad gan ein tîm Prosiect, contractwyr ac aelodau'r gymuned leol, Llywodraeth Cymru a Mabon ap Gwynfor AS. Dyma benllanw 16 mis o waith ar y safle a oedd yn cynnwys creu llwybr troed a gwaith tirweddu newydd, gwelliannau i gynefinoedd hamdden a bioamrywiaeth, a phlannu tair coeden yn lleol am bob un a dynnwyd. Yn hanfodol, mae gwaith peirianeg i 3km o gyforgloddiau wedi gwella diogelwch y gronfa ddŵr ac yn amddiffyn cartrefi lleol rhag perygl llifogydd.
5. Ddiwedd mis Mawrth, bûm yn siarad mewn digwyddiad i nodi diwedd blwyddyn gyntaf y Rhaglen Natur Greadigol rhwng CNC a Chyngor y Celfyddydau. Ymhlith y gwahoddedigion roedd cydweithwyr, cyfranwyr a rhanddeiliaid, yn ogystal â'r wyth artist a gymerodd ran yng Nghymrodoriaeth Dyfodol Cymru, un o ddau allbwn y rhaglen. Bydd yr ail allbwn, cynllun ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd a'r Celfyddydau, yn hyrwyddo gwerthoedd moesegol ac yn cefnogi'r sector creadigol i fod yn fwy ecogyfeillgar a symud tuag at ddyfodol sero net. Rwy'n falch iawn y bydd y bartneriaeth yn parhau am ddwy flynedd arall.
6. Cwrddais â Chomisiynydd newydd y Gymraeg, Efa Gruffudd Jones, yn gynnar ym mis Ebrill. Hefyd, cwrddais ag Andrew White o Gronfa Dreftadaeth y Loteri i drafod ffyrdd o weithio'n agosach mewn partneriaeth. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Philip Hygate, Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn Llangollen ac roedd yn cwmpasu ein blaenoriaethau ar gyfer tirweddau dynodedig, ein prosiect i fapio harddwch naturiol Cymru a diweddariad ar gamau gweithredu'r Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth.
7. Cyfarfu Ceri Davies a minnau â Nicole Paterson, Prif Weithredwr newydd y Scottish Environment Protection Agency (SEPA). Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos â nhw ar ystod o faterion, yn enwedig gwaith darogan a rhybuddion/hysbysu am lifogydd, a materion rheoleiddio.
8. Hefyd, cwrddais â'r Cynghorydd Andrew Morgan, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac yna, yn ddiweddarach yn y mis mynychodd Gareth a minnau gyfarfod o Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sy'n cynnwys yr holl Arweinwyr Awdurdodau Lleol, i'w llongyfarch ar y cynnydd ar Gynlluniau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thrafod y cynllun i ddiwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd gennym ni gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i haelodau.
9. Mwynheais ddeuddydd yn ardal Hwlfordd, gan dreulio amser yn y swyddfa yn cyfarfod a sgwrsio â chydweithwyr, a manteisio ar y cyfle i gwrdd â Tegryn Jones, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Hefyd, cefais gyfarfod

defnyddiol gydag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, gan ddechrau gyda chyfarfod rhagarweiniol gyda Tom Sawyer, y Prif Weithredwr newydd.

10. Ddiwedd mis Ebrill, mynychais ddathliad yn y Senedd i nodi degfed pen-blwydd y Llwybr Arfordir Cenedlaethol, a'r digwyddiad lansio ar gyfer Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Natur a Ni

11. Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein terfynol Cynulliad y Dinasyddion ar 18 Mawrth gan ganolbwyntio ar adeiladu'r weledigaeth ar y cyd. Ochr yn ochr ag amser i fyfyrion a blaenoriaethu, cafwyd cyflwyniad gan Jane Davidson, cyn-wleidydd Llafur Cymru, ar y gwaith i archwilio'r llwybrau posibl i sero net erbyn 2035. Mae'r hwyluswyr nawr yn paratoi adroddiad a fydd yn ateb y cwestiynau a ofynnwyd i'r Cynulliad a chyfosod holl sgyrsiau'r Cynulliad mewn datganiad gweledigaeth.
12. Rydyn ni'n paratoi cynllun i ryddhau'r weledigaeth yn ystod Wythnos Natur Cymru ddiwedd Gorffennaf. Y cynnig yw cynnal cyfres o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos hon, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, cyrff cyhoeddus, busnesau, elusennau ac artistiaid, er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r weledigaeth a'i rhannu; cysylltu ac ysbrydoli; cynyddu cyfraniad ac annog pawb sy'n gysylltiedig i gyfrannu at wireddu'r weledigaeth. Y nod yw bod digwyddiadau'n cael eu cyd-gynllunio a'u cynnal gan wahanol sefydliadau lle bo modd, er mwyn denu cynulleidfaoedd gwahanol, gwahodd perchnogaeth a gweithredu tuag at y weledigaeth.
13. Rydyn ni'n archwilio opsiynau i ddatblygu dulliau cyfathrebu er mwyn cefnogi'r gwaith hwn gyda'r artistiaid a'r dylunwyr sydd wedi bod yn rhan o fenter Natur a Ni hyd yma. Hefyd, rydyn ni'n gwneud gwaith mapio rhanddeiliaid fel rhan o'r paratoadau ar gyfer rhyddhau'r weledigaeth, cyn mynd at bartneriaid a datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu. Yn ogystal â hyn, byddwn ni'n paratoi ymateb ffurfiol CNC i'r weledigaeth, gan nodi'r hyn y byddwn ni'n ymrwymo i'w wneud fel sefydliad; bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r datganiad hwn yn yr hydref.

Y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol

14. Adferiad Natur fydd ein thema yn y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2023, a bydd y gweithgareddau ar ein stondinau yn adlewyrchu blaenoriaeth newydd y Cynllun Corfforaethol gan roi llwyfan i hyd a lled ein gwaith i ddiogelu ac adfer natur. Bydd standin y Sioe Fawr yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd i rwydweithio. Mae standin yr Eisteddfod yn llai ond bydd yn hyrwyddo'r un thema, gan ganolbwyntio ar brosiectau adfer natur CNC ger maes y Brifwyl.

15. Cyhoeddwyd y briff cyntaf (o dri) ar gyfer Aelodau'r Bwrdd ganol fis Ebrill a bydd briff arall yn dilyn ganol Mehefin, gyda sesiwn briffio derfynol wythnos cyn y Sioe Fawr.

Cyfathrebu a Digidol

Diwygio brand

16. Ochr yn ochr â lansio'r Cynllun Corfforaethol, buom hefyd yn gweithio'n ddiwyd i ailwampio brand CNC, gan weithio gyda TGCh i ddiweddarau systemau gyda thempledi a throedynnau e-bost diwygiedig, a chyda phartneriaid creadigol i greu canllawiau brand a deunyddiau cyhoeddusrwydd ar eu newydd wedd.
17. Law yn llaw â'r gwaith hwn, parhawyd i hyrwyddo ein gwaith ledled Cymru, gan gynnwys cwblhau gwaith rheoli perygl llifogydd Llyn Tegid, cyhoeddi'r adroddiad ar boblogaethau eogiaid a chwblhau gwaith i adfer mynydd Moel Morfydd ar ôl tanau gwyllt 2018.
18. Fe wnaethom ymgysylltu â'r gymuned amaethyddol ar sut i gadw at y rheolau ar wasgaru slyri a thail yn y gwanwyn, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021).
19. Buom yn brysur yn ystod y cyfnod hwn yn ymdrin ag ymholiadau niferus y cyfryngau ar fater ansawdd dŵr – yn enwedig mewn perthynas â rhyddhau data Rheoli Data Menter (EDM), pibellau carthffosydd wedi byrstio a chwestiynau parhaus am ddeuffenyl polychlorinedig (PCBs).
20. Cyn gwyliau'r Pasg, buom yn hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad, negeseuon cyfrifol am weithgareddau hamdden a'r tymor tanau gwyllt ac yn helpu i groesawu Gweilch y Pysgod yn ôl a lansio'r ffrwd fideo byw sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd o flwyddyn i flwyddyn.
21. Mae ein gwaith i adfer misglod perlog sydd mewn perygl hefyd wedi denu cryn sylw ar y cyfryngau gydag amrywiaeth o ddarlledwyr yn cynnwys y prosiect dros yr wythnosau diwethaf, ac roeddem yn falch o'r ymateb i ddarn manwl i'r BBC ar ragweld llifogydd.

Digidol

22. Prif ffocws y Tîm Digidol ym mis Mawrth oedd diwygio a diweddarau cynnwys a ffurflenni cais ar gyfer sawl caniatâd a thrwydded, wrth baratoi ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r taliadau caniatáu, gan fanteisio ar y cyfle i wella taith y defnyddwyr lle gallwn. Bellach mae'r gwaith ar stop nes bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cynlluniau. Hefyd, fe gyhoeddod ni'r Cynllun Corfforaethol newydd, gan gael gwared ar yr hen gynnwys a

gwella'r strwythur 'Amdanom ni' fel ei bod hi'n haws canfod a llywio drwy'r cynnwys. Mae'r tîm wedi dechrau gwneud sesiynau 'dangos a dweud' a 'nodiadau wythnos' rheolaidd, rhan bwysig o ddulliau gweithio ystwyth a gweithio'n agored (yn unol â safonau digidol Cymru). Ymhlith y pynciau diweddar oedd y cynnwys newydd a chyhoedd'r llawlyfr a'r ymchwil defnyddwyr coetiroedd diweddaraf. Buom hefyd yn cynnal sesiwn gyda thimau Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r ymdrechion parhaus i gydweithio er mwyn gwella'r cysylltiadau rhwng gwefannau CNC a'r Llywodraeth.

Cwsmeriaid

Mynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid

23. Ym mis Ionawr fe wnaethom ymddangos ar Fynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid yn y DU am yr eildro'n olynol, gan roi cyfle i ni gymharu data meincodi deuddeg mis yn ôl a data canfyddiadau'r cyhoedd o dri phwynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydyn ni'n falch o weld bod ein sgôr ein hunain wedi gwella a'n bod wedi cael sgôr cyfartalog gwell na'r sector. Mae'r sgoriau hefyd yn golygu ein bod ni'n symud uwchben sefydliadau tebyg ac yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Strategaeth Profiad ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid

24. Mae ein Strategaeth Profiad ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid yn gosod egwyddorion CNC ar gyfer profiad ac ymgysylltu â chwmseraid ym mhob rhan o'r busnes. Rydyn ni wrthi'n cynnal adolygiad mewnol ac yn diwygio'r strategaeth, yn unol â lansiad ein Cynllun Corfforaethol newydd a strategaethau a chynlluniau allweddol eraill CNC.

25. Ers ei gyhoeddi am y tro cyntaf, rydym wedi bod yn datblygu ac yn adeiladu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth sefydliadol o brofiad cwsmeriaid ac ymgysylltu â chwsmeriaid. Gydag eglurder a ffocws strategol y cynllun corfforaethol yn nodi'r uchelgais, bydd y strategaeth ar ei newydd wedd yn darparu'r fframwaith i sicrhau bod y sefydliad yn ymdrechu'n gyson i sicrhau rhagoriaeth, gan arwain at brofiad gwell i'n partneriaid, ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Polisi Cwynion a Chanmoliaeth newydd

26. Ar 1 Ebrill, lansiwyd ein Polisi Cwynion a Chanmoliaeth newydd, a fydd yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i gwsmeriaid roi adborth ar wasanaeth a gawsant gennym a sicrhau ein bod ni'n dysgu o adborth, a all fod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Rydyn ni wrthi'n cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff sy'n trin cwynion, fel eu bod yn gyfarwydd â'r polisi newydd ac yn hyderus wrth ymateb i adborth.

27. Ar ddiwedd y chwarter cyntaf byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad cwynio trwy wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i'r Ombwdsmon a'r cwsmeriaid gymharu ein perfformiad â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â pholisi trin cwynion yr Ombwdsmon.

Materion gweithredol

Gwaith plannu yng Nghoed Abermarlais, Sir Gâr

28. Dechreuodd cam cynta'r gwaith plannu yng nghoedwig coffa Coed Abermarlais (Brownhills) ym mis Mawrth. Gan weithio ochr yn ochr â Tir Coed, trefnodd CNC nifer o ddiwrnodau plannu cymunedol ar y safle gan ddenu nifer o wirfoddolwyr a grwpiau lleol - ac er gwaetha'r tywydd anhymorol o wlyb, llwyddwyd i blannu dros 4,000 o goed llydanddail – gan gynnwys perllan un erw o goed ffrwythau traddodiadol a dyfir yn lleol a oedd yn gysylltiedig â Dyffryn Tywi. O ystyried llwyddiant y cam plannu cychwynol hwn, bydd digwyddiadau pellach yn cael eu trefnu ar gyfer y tymor plannu nesaf.

29. Yn ogystal â'r gwaith a wnaed gan wirfoddolwyr, bu contractwyr hefyd yn plannu pedair hectar (deg erw) arall o'r ardaloedd glaswelltir wedi'i wella. Cyflawnwyd hyn drwy greu coridorau llydanddail 10m o led ochr yn ochr â'r gwrychoedd presennol ac ailblannu gwrychoedd hanesyddol oedd wedi'u diwreiddio. Bydd gweddill y glaswelltir wedi'i wella yn cael ei osod ar gyfer pori / cnydio yn ddiweddarach yn y mis tra byddwn yn archwilio opsiynau tymor hwy i reoli'r tir mewn ffordd gynaliadwy.

Y diweddaraf am Brosiect Peilot Glaswelltir

30. Mae'r Prosiect Peilot Glaswelltir yn cael ei ariannu drwy'r rhaglen Rhwydwaith Natur a'r rhaglen Argyfwng Hinsawdd a Natur. Mae'r Prosiect yn canolbwyntio ar wella cyflwr glaswelltir corsiog / porfa rhos ac wedi cyflogi swyddog prosiect llawn amser, gyda'r gwaith wedi'i rannu rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

31. Yn Sir Gaerfyrddin, ar ôl cyflawni dau gontract arolwg cynefinoedd allanol, rydym wedi mynd ati i gwrdd â'r perchnogion tir lluosog sy'n berchen ar gynefin addas yn ardal Llandeilo/Trap. Gallai'r safleoedd hyn fod yn rhan o fetaboblogaeth britheg y gors ac maent yn gysylltiedig â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sydd eisoes wedi'u dynodi. Gyda Chytundebau Rheoli Tir A16 Deddf yr Amgylchedd i'w disgwyl ddechrau'r haf, mae swyddog y prosiect yn gweithio ar ddatblygu nifer o gytundebau drafft A16, gan gostio rhaglenni rheoli cynefinoedd a gwaith cyfalaf yn barod i'w llofnodi yn ddiweddarach yn yr haf. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt yn dda â darpar borwyr a chontractwyr hefyd. Un safle i'w nodi yw 70 erw o dir cynefin

sy'n eiddo i gwmni Brecon Carreg, gyda'r potensial o'i ddatblygu i fod yn Warchodfa Natur Leol.

32. Gan nad yw cytundebau A16 oddi ar y safle ar gael yn Sir Benfro ar hyn o bryd, mae swyddog y prosiect wedi gweithio'n agos gyda Thîm yr Amgylchedd Lleol er mwyn helpu i gyflawni camau gweithredu ar safleoedd dynodedig i sicrhau'r gwariant mwyaf o'r gronfa Rhwydweithiau Natur. Mae'r gwaith wedi cynnwys aildrafod cytundebau A16, trafod opsiynau rheoli gyda thirfeddianwyr, trefnu a thrafod darparu gwaith cyfalaf â chontractwyr gwahanol a monitro gwaith gorffenedig wedyn cyn prosesu am daliad. Fel yn achos Sir Gâr, mae'r gwaith wedi dechrau ar nodi a thrafod cytundebau rheoli drafft oddi ar y safle â thirfeddianwyr yn barod ar gyfer llofnodi yn yr haf, unwaith y bydd A16 oddi ar y safle ar gael.

Caffael tir

33. Yn ystod y mis diwethaf, rydym wedi cwblhau'r broses o brynu dau ddarn o dir gan ddefnyddio arian o'r pot plannu cydbwysu:

- Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coed y Cerrig ger y Fenni, sy'n cynnwys 5.27 hectar o dir yr oeddem yn ei rentu'n flaenorol. Mae hwn wedi'i ddynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) fel enghraifft ardderchog o goedwig llifwaddodol. Mae'r tir yn cynnal poblogaeth gyfan Sir Fynwy o redynen y gors sy'n brin yn genedlaethol, yn ogystal â phoblogaethau o rywogaethau anghyffredin eraill sy'n brin yn lleol megis cwlwm cariad, egllyn cylchddail a phlu'r gweunydd llydanddail. Yr hyn sy'n debygol o ddenu sylw ymwelwyr â'r safle yw blodau trawiadol gold y gors, sy'n amlwg o'r llwybr bordiog 500 metr hygyrch. Yn ogystal, prynwyd 3.76 hectar arall o goetir cyfagos. Mae gan y tir hwn fflora da a fydd yn gwella gyda rheolaeth ofalus a'r potensial i ddarparu cynefin porthiant da ar gyfer poblogaeth o ystlumod ar dir SAC cyfagos.
- Bloc 32.5 hectar o dir ym Machen, Caerffili lle rydyn ni'n bwriadu plannu cymysgedd o goed conwydd a llydanddail. Mae yna ardaloedd o dir heb ei wella a gaiff ei gadw a'i reoli fel cynefinoedd glaswelltir agored a rhwydwaith o wrychoedd a fydd yn cael eu rheoli i wella cysylltedd ar hyd a lled y safle.

Gweithio mewn partneriaeth

34. Mae'r Uned Cludo Llwythi o Wastraff Rhyngwladol, sy'n rhan o'r Waste Once in Operations Team, yn rheoleiddio mewnfurion ac allfurion gwastraff ar gyfer CNC. Ym mis Tachwedd 2022, teithiodd ein swyddogion i Belffast i gymryd rhan ym mhrosiect Shipment of Waste Enforcement Actions, sy'n cael ei ariannu ar cyd gan gronfa LIFE y Comisiwn Ewropeaidd a'i gydlynu gan Rwydwaith Gweithredu a Gorfodi Cyfraith

Ewropeaidd (IMPEL), sydd â'r nod o darfu ar y fasnach gwastraff anghyfreithlon drwy gynyddu cydweithio a setiau sgiliau ymhlith arolygwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

35. Roedd yr ymweliad deuddydd yn cwmpasu systemau gwaith diogel ar gyfer archwilio cynwysyddion ac ymweliad â Dociau Belffast i archwilio cynwysyddion er mwyn dangos gweithdrefnau ac ansawdd y mathau o wastraff. Bu swyddogion o Wlad Belg, Yr Iseldiroedd, Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr yn bresennol. Daethant i'r casgliad bod ffyrdd o weithio wedi newid mewn byd ôl-bandemig ac fe wnaeth Cynhadledd Cyfnewidfa Arolygwyr ym Melffast dynnu sylw at yr angen am fwy o gydweithrediad a chyfnewid gwybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â chludo gwastraff rhyngwladol, a phwysigrwydd hynny.

Prosiect SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities)

36. Ar ôl sicrhau cyllid i barhau drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur Treftadaeth, bydd Prosiect SIARC yn cael ei lansio'n ffurfiol ym mis Ebrill, ac yn para am dair blynedd arall tan ddiwedd mis Mawrth 2026.

37. Arweinir Prosiect SIARC ar y cyd gan CNC a Chymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL) gyda phedwar prif amcan. Y nod yw mynd i'r afael â bylchau data critigol yn ecoleg elasmobranciaid (siarcod a morgathod); arallgyfeirio'r cyfleoedd i ymwneud â chadwraeth forol yng Nghymru; creu mwy o werthfawrogiad o'r amgylchedd tanddwr; ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i gysylltu â'r amgylchedd morol drwy ddysgu.

38. Gan adeiladu ar y llwyddiant a'r technegau a ddatblygwyd fel rhan o Brosiect Maelgi: Cymru, mae gan Brosiect SIARC ddull amlddisgyblaethol sy'n darparu saith pecyn gwaith gydag wyth partner a 13 o sefydliadau cydweithredol. Mae partneriaethau pysgotwyr wrth wraidd y rhaglen gyflawni, a bydd y strategaeth ymgysylltu â physgotwyr yn cael ei defnyddio i lywio technegau samplu, mecanweithiau adborth, cyfathrebu prosiectau a chyfleoedd ymgysylltu. Bydd pysgotwyr yn cael hyfforddiant mewn adnabod elasmobranciaid a thrin arferion gorau, a rhai hefyd yn hyfforddi i ddefnyddio BRUVS (systemau fideo abwyd tanddwr anghysbell).

39. Byddant yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn data gydag arolygon lloeren rheolaidd o faelgwn wedi'ui tagio, defnyddio BRUVS mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, nodi sbardunau amgylcheddol dosbarthiad elasmobranciaid gan ddefnyddio modelu cefnforol, prosesu data, lledaenu ac archifo, parhau â Grŵp Ymchwil Elasmobranciaid Cymru a datblygu prosiectau myfyrwyr sy'n dadansoddi data SIARC.

40. Bydd y gwaith ymgysylltu a chynhwysiant cymunedol yn adeiladu ar elfennau presennol y Gronfa Rhwydweithiau Natur sy'n ymwneud â 'chydarddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant' a bydd hyfforddiant pellach ar gael i dîm y prosiect i gynyddu eu gallu i ennyn diddordeb cymunedau mewn ffordd fwy cynhwysol. Bydd swydd 'Swyddog

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' llawn amser yn cael ei secondio i CNC gydol y Prosiect.

41. Bydd lluniau BRUVS yn parhau i gael eu huwchlwytho i blatfform ac ap Instant Wild (IW) sy'n galluogi gwyddonwyr-ddinasyddion i barhau i ryngweithio ag elasmobranciaid a ffilmwyd gan y Prosiect a chwblhau'r tiwtorial adnabod. Bydd y ffilm yn parhau ar y wefan am o leiaf bum mlynedd ac yn cael ei gynnal gan dîm Instant Wild yn ZSL.
42. Bydd y rhaglen ymgysylltu â ysgolion yn cael effaith barhaol drwy ysbrydoli plant ysgol am eu hamgylchedd morol lleol, gydag allbynnau'n cael eu hymgorffori mewn rhaglenni addysg partner a deunyddiau ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan Hwb.
43. Bydd partneriaeth CNC-ZSL yn parhau i ddangos manteision cydweithio rhwng y llywodraeth a cyrff anllywodraethol a gynlluniwyd i lenwi bylchau data hanfodol sy'n galluogi cadwraeth dan arweiniad gwyddoniaeth i lywio penderfyniadau cyngor a rheoli gwaith achos ar draws dwy Ardal Cadwraeth Arbennig yng Nghymru.

Materion strategol

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2025

44. Bydd adroddiad interim (drafft) yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024 a bydd SoNaRR2025 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025. Yn ôl Gweledigaeth SoNaRR, dylid defnyddio SoNaRR fel "grym daioni" i helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Rhaid i SoNaRR gyflawni'r pwrpas statudol gan sicrhau ei fod yn effeithiol wrth ddylanwadu ar benderfyniadau.
45. Hoffem i SoNaRR fod yn hawdd i'w ddefnyddio a'i ddiweddarau. Yn dilyn cyhoeddi SoNaRR2020, gofynnwyd am adborth gan gydweithwyr a'r rhanddeiliaid maen nhw'n gweithio gyda nhw. Hefyd, fe wnaethom holi staff allweddol Llywodraeth Cymru sut maen nhw'n defnyddio SoNaRR. Rydyn ni wedi defnyddio hyn i lywio datblygiad yr adroddiad newydd.
46. Bydd SoNaRR2025 yn asesiad diweddaraf o sut mae Cymru yn cyflawni gofynion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Nid ydym yn bwriadu ailysgrifennu'r holl benodau: byddwn yn adeiladu ar SoNaRR2016 a SoNaRR2020 fel sail i adroddiadau'r dyfodol. Rydyn ni'n bwriadu cadw'r prif strwythur o amgylch pedwar nod SMNR a'r wyth ecosystem eang, a byddwn yn ei gwneud hi'n haws i bawb ddod o hyd i'r wybodaeth sy'n berthnasol i aer, dŵr a phriddoedd. Gan ddefnyddio'r sbardunau newid allweddol, byddwn yn diweddarau'r pwysau, y sefyllfaoedd, y tueddiadau a'r rhagolygon, ac effeithiau. Bydd rhain oll yn llywio'r cyfleoedd diwygiedig i weithredu ar raddfa genedlaethol.

47. Mae staff o bob rhan o'r Uned Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) yn gweithio i ddatblygu'r dull ar gyfer y diweddariad. Bydd ymchwil profiad defnyddwyr yn ein helpu i ganolbwyntio ar strwythur a chynnwys allbynnau, a byddwn yn dechrau adolygu'r dystiolaeth fydd ei hangen ar gyfer y diweddariad dros yr haf. Rydyn ni'n mynd ati i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith canlyniad a dangosydd ar gyfer SMNR, gan gysoni SoNaRR â'r nodau llesiant a dangosyddion cenedlaethol.
48. Byddwn yn cyflwyno papur ar SoNaRR 2025 i'r Bwrdd yr hydref hwn.

Rhaglen Tirweddau Dynodedig

49. Mae tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig bellach ar waith yn llawn. Mae'r tîm yn cynnwys Prif Ymgynghorydd, Rheolwr Rhaglen, dau Arbenigwr Tirwedd, Dadansoddwr GIS, Swyddog Caffael a Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae gwaith mapio rhanddeiliaid eisoes wedi digwydd ac mae cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar y gweill.
50. Cynhaliwyd cyfarfod diweddar deufisol cyntaf y rhaglen gyda Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, ar 16 Chwefror. Roedd y Gweinidog yn ymddangos fel pe bai'n gyfarwydd iawn â'r rhaglen ac yn falch o'r cynnydd hyd yma. Mae'r diweddariad gweinidogol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 20 Ebrill.
51. Elfen sylfaenol o'r broses i asesu Parc Cenedlaethol newydd yw'r 'Maes Chwilio', gan adeiladu ar gwmpasu cychwynnol yr ardal dan ystyriaeth. Mae hyn yn cynnwys asesiad sgrinio cychwynnol i weld a oes gan yr ardal dan sylw ddigon o lefydd o harddwch naturiol o bwys a chydabyddiaeth genedlaethol o fewn cyd-destun daearyddol Cymru. Mae'r Maes Chwilio yn darparu'r fframwaith gofodol ar gyfer y broses o gasglu tystiolaeth. Mae map sy'n dangos y maes chwilio drafft wedi'i greu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), tra bod adroddiad sy'n manylu ar y gwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer ei gwblhau erbyn canol mis Ebrill. Cofiwch nad ffin ddrafft yw'r Maes Chwilio. Dim ond pan fydd y dystiolaeth wedi ei chasglu, ei hasesu a'i thrafod, y gall CNC ddeall lle fyddai modd tynnu ffin ddrafft, a bydd angen ymgynghoriad helaeth a mireinio tebygol i wneud hyn.
52. Mae disgwyl i gontractau ar gyfer camau pellach yr asesiad dynodiad gael eu cyflwyno ym mis Mehefin 2023. Mae gwaith caffael paratoadol ar y gweill i hwyluso'r gwaith hwn sy'n digwydd yn ôl yr amserlen.
53. Mae prosiect cysylltiedig i fapio harddwch naturiol wedi bod mynd rhagddo law yn llaw â'r broses ddynodi. Bydd y prosiect hwn yn integreiddio ystyriaethau SMNR ac yn llywio holl waith dynodi yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd cyfarfod cyfarwyddyd mewnol yn cael ei gynnal ar 13 Ebrill i sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid mewnol yn cael eu hysbysu a'u bod yn cael cyfle i gydlynu gweithgareddau a siapio'r cynnyrch er y budd dinasyddion Cymru. Mae cyfarfod rhanddeiliaid allanol o sefydliadau cenedlaethol sydd

â diddordeb yn y dirwedd a'r amgylchedd, wedi'i drefnu ar gyfer diwedd Ebrill/dechrau Mai; bydd hyn yn cyflwyno'r prosiect ac yn chwilio am gynrychiolwyr Grŵp Technegol Allanol.

Afancod yng Nghymru

54. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, wedi gofyn i CNC weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith polisi a safbwynt ar ail-gyflwyno afancod yma yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn hefyd yn llywio'r sefyllfa o ran amddiffyniad cyfreithiol posib afancod yng Nghymru yn y dyfodol.
55. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith polisi yng Nghymru, mae staff arbenigol a thechnegol CNC wedi bod yn adolygu ac yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar afancod yng nghyd-destun amgylchedd Cymru a fframwaith polisi amgylcheddol a chyfreithiol Cymru. Rydyn ni wedi defnyddio adolygiadau tystiolaeth presennol o'r Alban a Lloegr i asesu sut allan nhw fod yn berthnasol i Gymru a nodi unrhyw fylchau tystiolaeth. Mae'r gwaith ar yr adroddiad tystiolaeth bron wedi gorffen, ac rydym mewn trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru am y camau nesaf.
56. Mae arolwg cyhoeddus Rhyddhau Afancod Cymru sy'n cael ei gynnal gan Brifysgol Caerwysg bellach wedi cau. Cafwyd ymateb sylweddol ac mae'r canlyniadau yn cael eu dadansoddi cyn cynhyrchu adroddiad a fydd ar gael maes o law i Lywodraeth Cymru a CNC.

Ymgynghoriad Rheoleiddio Rhyddhau Adar Hela

57. Ar 27 Mawrth, lanswyd ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos ar ddull newydd arfaethedig o reoleiddio rhyddhau adar hela (ffesantod a phetris coesgoch) yng Nghymru. Mae'n rhan o brosiect a sefydlwyd i gyflawni ymrwymadau Gweinidogion Cymru i ddatblygu opsiynau rheoleiddiol yn dilyn cyflwyno dull trwyddedu interim Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn Lloegr. Ymateb i her gyfreithiol gan grŵp ymgyrchu Wild Justice oedd y dull gweithredu yn Lloegr.
58. Yn haf 2022, fe wnaethon ni gynnal galwad am dystiolaeth i lywio ein gwaith a chomisiynu dau adroddiad tystiolaeth gan arbenigwr allanol. Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael, rydyn ni wedi cynnig y dylid ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y mae'n berthnasol i Gymru. Byddai hyn yn golygu y byddai angen trwydded gan CNC i ryddhau'r rhywogaethau hyn yng Nghymru.
59. Rydym wedi cynnig y dylid caniatáu achosion o ryddhau sy'n dilyn arferion da y diwydiant a dderbyniwyd yn eang ac sy'n fwy na 500 metr o safleoedd gwarchoddedig sensitif (safleoedd Ewropeaidd neu SoDdGA) dan drwydded gyffredinol. Bydd

amodau'r drwydded hon yn seiliedig ar ganllawiau rhyddhau adar hela yn gynaliadwy yr Ymddiriedolaeth Adar Hela a Bywyd Gwyllt.

60. Byddai angen trwydded benodol gan CNC ar gyfer achosion o ryddhau adar hela sydd o fewn safleoedd gwarchodedig sensitif neu eu 'clustogfeydd' 500 metr, neu nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau a thelerau'r drwydded gyffredinol arfaethedig (er enghraifft oherwydd eu bod yn cynnig dwysedd rhyddhau sy'n fwy na'r rhai a ganiateir). Byddai hyn yn ein galluogi i roi sylw unigol i achosion o ryddhau sydd â risg uwch o effaith amgylcheddol.
61. Rydyn ni'n cynnig nodi unrhyw safleoedd gwarchodedig sy'n annhebygol o fod yn sensitif i ryddhau adar hela (fel y rhai a ddynodwyd ar gyfer nodweddion daearegol yn unig). Bydd y drwydded gyffredinol ar gael i'w defnyddio yn y safleoedd hyn a'u clustogfeydd.
62. Er ein bod ni'n cynnig adennill costau prosesu ceisiadau trwydded benodol ar gyfer rhyddhau, rydyn ni'n cynnig hepgor unrhyw dâl lle mae angen trwydded benodol ar ymgeiswyr dim ond oherwydd eu hagosrwydd at safle gwarchodedig ond sydd fel arall yn cydymffurfio ag amodau a thelerau'r drwydded.
63. Datblygwyd ein dull gweithredu fel ffordd gymesur i'n helpu i reoli effeithiau posibl achosion o ryddhau ar safleoedd gwarchodedig ac ar gynefinoedd a rhywogaethau a restrir dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel rhai pwysig iawn at ddibenion cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.
64. Bu diddordeb sylweddol yn ein cynigion gan randdeiliaid a'r cyfryngau. O ganlyniad, cafwyd cryn ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal ag ymgyrch lobïo e-bost dorfol. Er bod llawer o randdeiliaid wedi dewis cyfeirio at ein cynigion fel "gwaharddiad" ar ryddhau adar hela, rydyn ni wedi datgan yn gwbl glir nad dyna sy'n cael ei gynnis.

Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

65. Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn lansio Argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ym mis Hydref 2022. Canolbwyntiwyd ar gydgyngyrchu'r Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys gwaith rhanddeiliaid ehangach drwy wahanol grwpiau, fel Grŵp Gweithredu NRAP, Arfordiroedd Cymru a Phartneriaeth Moroedd Cymru.
66. CNC sy'n arwain y gwaith o gyflwyno llawer o'r argymhellion. Mae gwaith cwmpasu cychwynnol ar y cynnwys a'r amserlenni ar gyfer datblygu'r Map Rhwydweithiau Natur wedi'i gwblhau. Mae'r rhaglen Natur a Ni yn agosáu at ddiwedd ei hail gam ac yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod safleoedd

gwarchoddedig yn flaenoriaeth i CNC fel 'busnes fel arfer', drwy gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol newydd.

67. Mae Ceri Davies wedi derbyn gwahoddiad gan y Gweinidog i sefydlu ac arwain y Grŵp Gorchwyl Monitro a Thystiolaeth a'r Athro Steve Ormerod (yn rhinwedd ei swydd ym Mhrifysgol Caerdydd) wedi cytuno i sefydlu ac arwain y Grŵp Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur a Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer cyfarfod cyntaf y ddau grŵp ar y gweill. Bydd y Cadeiryddion yn adrodd bob chwarter i'r Grŵp Archwiliad Dwfn Craidd, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ac yn cwrdd bob chwarter. Mae'r grŵp yn goruchwyllo'r gwaith o gydgyhyrchu'r Cynllun Gweithredu a bellach yn canolbwyntio ar ei weithredu. Bydd y gwaith o adrodd am gynnydd yr argymhellion yn digwydd bob chwe mis, gyda'r Gweinidog yn cyhoeddi'r adroddiad chwe mis yn fuan wedyn.

Asesiad Dylunio Generig o Adweithydd Modiwl Bach Rolls-Royce (SMR)

68. Ar 3 Ebrill, cyhoeddodd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR), Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) a CNC fod yr asesiad o ddyluniad Adweithydd Modiwl Bach 470 MW (SMR) Rolls-Royce SMR Ltd yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae'r broses, a elwir yn Asesiad Dylunio Generig (GDA), yn caniatáu i'r rheoleiddwyr ddechrau asesu diogelwch, diogeled, ac agweddau amddiffyniadau ac amgylcheddol ar ddyluniadau adweithydd newydd cyn i gynigion safle-benodol gael eu cyflwyno. Dechreuodd Cam 1 y GDA ym mis Ebrill 2022 ac mae'r cam hwn bellach wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae mis Ebrill 2023 yn nodi dechrau Cam 2, ac mae disgwyl iddo gymryd 16 mis.

69. Mae'r GDA yn canolbwyntio ar ddyluniad gorsaf bŵer niwclear generig ac nid yw'n safle-benodol. Mae'r broses yn systematig ac yn cynnwys sawl cam, gyda'r asesiad yn mynd yn fwyfwy manwl wrth i'r broses ddatblygu. Dim ond ar ddiwedd Cam 3 o'r GDA y bydd Cadarnhad o Dderbyn Dyluniad yn cael ei gyhoeddi os yw'r dyluniad yn bodloni'r mesurau diogelwch cadarn a'r safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff a ddisgwylir gan ein fframweithiau rheoleiddio. Nid yw'r dyfarniadau rheoleiddiol hyn yn gwarantu o gwbl y caiff trwydded safle na chaniatâd dilynol ei roi o dan amodau trwydded safle ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer yn seiliedig ar ddyluniad SMR Rolls-Royce ar safle penodol ym Mhrydain.

Adolygiad o Gyfraith Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir (REUL) a Goblygiadau'r Bil REUL

70. Mae'r tîm Polisi Amgylcheddol Strategol yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ei asesiad o ddeddfwriaeth sy'n cael ei hadolygu yng nghwmpas Bil REUL. Fe wnaeth y tîm gydlynu adolygiad trawsweithredol i nodi darnau o REUL sy'n cydblethu â chylch gwaith a chyfrifoldebau CNC. Mae ein gwaith yn cynnwys asesu effaith Bil REUL ar

weithredu awdurdodiadau CNC, gan gyfeirio at drwyddedau, trwyddedau, cydsyniadau, cofrestriadau, awdurdodiadau ac esemptiadau a gyhoeddwyd gan CNC.

71. Yn y cyfamser, mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) wedi cyhoeddi ei adroddiad cyntaf ar Fil REUL. Derbyniodd yr IEPAW 11 o ymatebion rhanddeiliaid gan Gymdeithas Clercod Gwaith Amgylcheddol, Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Partneriaeth Natur Sir Gâr, Y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, NFU Cymru, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Coed Cadw a CNC.
72. Roedd yr adroddiad yn ategu pryderon y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (Mick Antoniw AS) a rhai CNC ynghylch effaith bosibl y Bil ar weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru gan gynnwys diffyg cynllunio, amserlen dynn, a risg canlyniadau polisi gwrthdro.
73. Mae'r sefyllfa'n dal yn aneglur gan nad yw Bil REUL wedi cael cydsyniad datganoledig ac nid yw'r Senedd wedi cyhoeddi memorandwm cydsyniad deddfwriaethol eto. Rhagwelir y byddai gweithredu'r Bil yn ei ffurf bresennol yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran adnoddau ac yn rhoi pwysau aruthrol ar weinyddiaethau datganoledig, gan dynnu oddi ar adnoddau a gofod deddfwriaethol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
74. Gallai newidiadau arfaethedig i fframwaith cyfreithiol presennol y DU ddarparu ansicrwydd, oedi, a thrafferthion sylweddol mewn achosion cyfreithiol. Gallai gadael cyfraith achosion amgylcheddol a ddargedwir arwain at gynseiliau ailbrofi Llysoedd y DU. Rhagwelir y gallai hyn waethygu ymhellach trwy wahaniaethau cyfreithiol rhwng y gweinyddiaethau datganoledig.
75. Rydyn ni'n parhau i bwysleisio nad yw'r cymal machlud, darpariaeth sy'n nodi y byddai cyfraith yr UE yn cael ei ddirymu ar 31 Rhagfyr 2023, yn rhoi digon o amser i weinyddiaethau datganoledig addasu i newidiadau deddfwriaethol, diwygio ein dulliau gweithredu ac ystyried effeithiau canlyniadol ar weithredu cyfraith amgylcheddol.
76. Ar hyn o bryd nid yw'n glir pa effaith y gallai'r Bil REUL ei gael ar allu CNC i reoleiddio a gweithredu mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol. Rydyn ni'n parhau i fonitro datblygiad Bil REUL wrth iddo fynd drwy San Steffan ac yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'n chwaer asiantaethau, er mwyn sicrhau bod CNC yn barod ac yn gallu rheoli risgiau sy'n deillio o newidiadau posibl.

Rhagolwg

Dydd Llun 5 Mehefin – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Dydd Mawrth 6 Mehefin - Lansio'r Cynllun Corfforaethol yn y Senedd

Dydd Mercher 7 Mehefin – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Mercher 7 Mehefin – Cyfarfod Cynllun Corfforaethol, Caerfyrddin (De-orllewin)

Dydd Iau 8 Mehefin – Cyfarfod Cynllun Corfforaethol, Trecelyn (De-ddwyrain)

Dydd Mercher 14 Mehefin – Cyfarfod Eithriadol o'r Bwrdd, yna Galwad Diweddarau'r Bwrdd

Dydd Iau 15 Mehefin – Pwyllgor Cyllid

Dydd Mawrth 20 Mehefin – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Dydd Mawrth 20 Mehefin – Cyfarfod Cynllun Corfforaethol, Maes y Sioe, Llanelwedd (Y Canolbarth)

Dydd Mercher 21 Mehefin – Cyfarfod Cynllun Corfforaethol, Wreccsam (Y Gogledd-ddwyrain)

Dydd Iau 22 Mehefin – Cyfarfod Cynllun Corfforaethol, Caerdydd (Canol y De)

Dydd Mercher 28 Mehefin – Cyfarfod Cynllun Corfforaethol, Caernarfon (Y Gogledd-orllewin)

Dydd Iau 29 Mehefin – Cyfarfod Cynllun Corfforaethol, Castell-nedd (De-orllewin)

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	18 Mai 2023
Teitl y papur:	Diweddariad Bwrdd y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y Papur:	23-05-B05
Noddir y Papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyllid – 28 Ebrill.

Cefndir

1. Mae'r papur yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 28 Ebrill 2023. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.

Diweddariad

Diweddariad Cyllid

2. Cafodd y Pwyllgor Cyllid drosolwg o berfformiad y gyllideb ar gyfer Cyfnod 12 (Mis Mawrth) a bu'n trafod y gwersi arfaethedig a ddysgwyd.

Cyflwyno Diweddariad Cyllideb 2023-24

3. Cyflwynwyd Fersiwn 2 Cyllideb Agoriadol 2023-24 i'r Pwyllgor Cyllid ac roedd yn cynnwys yr argymhellion a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	18 Mai 2023
Teitl y Papur:	Diweddariad gan Fwrdd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Cyfeirnod y Papur:	23-05-B06
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
Diben y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC) – 18 Ebrill.

Cefndir

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2023. Gall cofnodion y cyfarfodydd hyn fod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.

Diweddariad

Adroddiad Diweddar y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

2. Cyflwynwyd adroddiad diweddar i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a dynnodd sylw at feysydd gwaith allweddol gan gynnwys: y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd; dau Adolygiad Llifogydd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru; y mesurau penodol i lifogydd yn y Cynllun Corfforaethol newydd; gwaith y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol; ail-ymgynghoriad Tan15; ac adroddiadau Adran 18 a Chronfeydd Dŵr ddwywaith y flwyddyn. Tynnwyd sylw hefyd at y cyhoeddiad Gweinidogol disgwylidig ar y gyllideb Llifogydd.

Papur Newid Cynllun Lliniaru Llifogydd Rhydaman – Gwersi a Ddysgwyd

3. Bu'r Pwyllgor yn trafod y materion a gafodd sylw yn ymarfer gwersi a ddysgwyd Rhydaman. Roeddent yn fodlon â'r camau a nodwyd ac yn cynnig cyngor ac arweiniad.

Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

4. Darparwyd trosolwg o safle terfynol y Rhaglen Gyfalaf Llifogydd ar gyfer 2023, gan gynnwys y prosiectau a gwblhawyd yn 2022-23 a sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Darparwyd diweddariadau hefyd ar gynnydd y Prosiect System Rhybudd Llifogydd a'r Prosiect Telemetreg.
5. Bu'r Pwyllgor yn trafod dyhead Llywodraeth Cymru i ddiogelu 45,000 o gartrefi rhag llifogydd, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion yn ymwneud â llifogydd.

Rhaglen Weithredu ar gyfer Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd (FRRIP)

6. Darparwyd diweddariad ar waith y FRRIP, gan gynnwys: nodi bod y statws Coch, Melyn, Gwyrdd (RAG) wedi newid o Felyn i Wyrdd; cynnydd yn erbyn y camau sydd heb eu datrys; a chynnydd yn erbyn adroddiadau cau'r ardal waith.
7. Nodwyd y newidiadau mwyaf o'r camau a gymerwyd, gan gynnwys gwella gwydnwch digwyddiadau a rotas rhaeadru, y gyfres o ganllawiau newydd a'r system rheoli asedau newydd ar gyfer Stiwardiaeth Tir.

Adolygiad Blynyddol Risg Strategol SR09 - Rheoli Digwyddiadau yn Effeithiol

8. Adolygodd y Pwyllgor Risg Strategol 09 – Rheoli Digwyddiadau. Crynhowyd y newidiadau allweddol a'r gwaith yn erbyn y camau gweithredu a'r mesurau rheoli. Cafodd y sgôr presennol a'r sgôr targed eu trafod a'u cytuno.

Dychwelyd asedau Rheoli Perygl Llifogydd (FRM) Risg Uchel i gyflwr Ffafirol – nodyn briffio

9. Amlinellodd y papur wybodaeth am sut y gallai CNC ddychwelyd asedau FRM risg uchel i gyflwr ffafirol, a oedd yn cynnwys gwaith sydd ar y gweill a gwaith sy'n mynd rhagddo. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â statws RAG Gwyrdd y ffigurau diwedd blwyddyn ac yn hapus i ddatganoli goruchwyliaeth i'r tîm Gweithredol.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	18 Mai 2023
Teitl y papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm)
Cyfeirnod y Papur:	23-05-B07
Noddir y Papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd y Fforwm / Rhys Jones, Cadeirydd y Fforwm
Paratowyd y Papur gan:	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Rheoli Tir Cymru
Cyflwynir y Papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd y Fforwm / Rhys Jones, Cadeirydd y Fforwm
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Diweddaru'r Bwrdd ar waith y Fforwm

Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm)

1. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm) bedair gwaith y flwyddyn, sy'n gyfle i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau aelodaeth eraill o'r Fforwm rannu gwybodaeth, nodi diddordebau cyffredin a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

Diweddariad

Cyfarfod 13 Mawrth 2023

2. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Fforwm ar 13 Mawrth 2023.
3. Roedd y grŵp yn cydnabod mai dyma oedd cyfarfod olaf Zoe Henderson fel Cadeirydd y Fforwm, gan ddiolch o galon iddi am ei gwaith. Croesawodd y grŵp y Cadeirydd nesaf, sef yr Athro Rhys Jones.
4. Ymunodd Liz Halliwell, Sarah Wood, a Kate Collins, CNC, â'r cyfarfod i ddarparu diweddariad llafar byr am afancod.

5. Ymunodd Russell De'Ath, CNC, â'r cyfarfod i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect 'Natur a Ni' a'r camau nesaf.
6. Cafodd holl aelodau'r Fforwm gyfle i holi am Ddiweddariadau CNC a rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain hefyd.
7. Cynhelir cyfarfod nesa'r Fforwm ddydd Llun 5 Mehefin.
8. Unwaith y bydd yr aelodau wedi adolygu a chytuno'n ffurfiol ar y cofnodion, byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC.

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

9. Prif nod yr Is-Grŵp hwn yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru wrth gynnal sector ffermio ffyniannus yn dilyn pum thema allweddol (cyngor a chanllawiau, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddi), a gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariad

Cyfarfod 27 Mawrth 2023

10. Rhoddodd Bronwen Martin, CNC, drosolwg a diweddariad am broses Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI). Archwilio cysylltiadau cyfle SBRI ag amcanion yr Is-Grŵp, yn enwedig 'datblygu a darparu prosiectau arloesol er mwyn helpu i leihau achosion o lygredd amaethyddol yng Nghymru'.
11. Ymunodd John Williams, ADAS, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ynglŷn â'r Prosiect Llwyth Maethynnau. Nododd Adroddiad Cynnydd Is-Grŵp y Fforwm (2018) yr angen i gomisiynu dadansoddiad pellach o achosion sylfaenol llygredd amaethyddol (Argymhelliad 3.1). Fe wnaeth Grŵp Polisi a Thystiolaeth Pridd Llywodraeth Cymru gomisiynu ADAS i bennu dosbarthiad a maint y banc tir (tir amaethyddol) sydd ar gael i ailgylchu deunyddiau maethynnau/organig ar raddfeydd cenedlaethol a lleol. Rhannwyd y prosiect yn ddau becyn gwaith; Pecyn gwaith 1: Cyfyngiadau i adfer ac ailgylchu maethynnau i dir amaethyddol yng Nghymru a Phecyn Gwaith 2: Asesiad o'r banc tir yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r ddau adroddiad wedi eu cyhoeddi ar wefan Rhaglen Dystiolaeth Polisi Pridd Llywodraeth Cymru.
12. Ymunodd yr Athro Chris Collins, CNC a Dr Liz Bagshaw, Prifysgol Caerdydd â'r cyfarfod i ddarparu cefndir i Wyddoniaeth Dinasyddion a chyflwyniad ar brosiect diweddar. Yr Athro Chris Collins yw Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth CNC. Fe wnaeth Liz drafod peth o'r gwaith mae Prifysgol Caerdydd wedi bod yn ei hwyluso er mwyn i wyddonwyr dinasyddion i fonitro ansawdd dŵr yn eu dalgylchoedd.

13. Bydd Is-grŵp y Fforwm yn cyfarfod wyneb yn wyneb ddydd Gwener 5 Mai 2023, a dyma fydd cyfarfod olaf Zoe Henderson fel Cadeirydd.
14. Unwaith y bydd yr aelodau wedi adolygu a chytuno'n ffurfiol ar gofnodion y cyfarfodydd, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Is-grŵp y Fforwm ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	Dydd Iau 18 Mai 2023
Teitl y papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (y Fforwm)
Cyfeirnod y Papur:	23-05-B09
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd y Fforwm
Paratowyd y Papur gan:	Ceri Jones, Prif Ymgynghorydd Arbenigol: Rheoli Dalgylchoedd
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd y Fforwm
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Uchafbwyntiau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ar 16 Mawrth 2023

Cefndir

1. Cafwyd y diweddariad diwethaf gan Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (y Fforwm) ym mis Ionawr 2023. Mae'r Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i sefydliadau aelodaeth y fforwm rannu tystiolaeth a chyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy o ddŵr yng Nghymru - o'r tarddiad i'r môr. Yn ogystal â thrafodaeth barhaus am faterion rheoleiddio a pherfformiad - er enghraifft o ran Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cymru a Lloegr) 2017 – y themâu allweddol oedd agweddau ehangach ar ansawdd dŵr, llywodraethu dŵr ac adnoddau dŵr yng Nghymru a gorllewin Lloegr.
2. Mae'r Fforwm hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu, cefnogi a chyfathrebu negeseuon ac argymhellion ar y cyd ar reoli adnoddau naturiol yn fwy cyffredinol ochr yn ochr â Fforwm Rheoli Tir Cymru, Fforwm Pysgodfeydd Cymru, Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru a Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.

Diweddariad

3. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithwir ar 16 Mawrth 2023. Roedd y sesiwn yn cynnwys trafodaeth agored ar faterion perthnasol i'r fforwm, diweddariadau gan aelodau a thrafodaeth ar y papur 'Diweddariad' a baratowyd gan CNC. Roedd pwyntiau trafod mis Mawrth yn cynnwys; Water Resources West, Rhaglen Cyfalaf Dŵr Llywodraeth Cymru/CNC a gwaith Inland Bathing Waters. Darparwyd gwybodaeth am gynnydd Cynllun Corfforaethol CNC hefyd, ac fe gafodd yr aelodau gyfle i roi adborth a sylwadau am y cyfarfod diwethaf.
4. Rhoddodd Morag Taite, Ymgynghorydd Gwyddoniaeth Dinasyddion (CNC) gyflwyniad ar ymagwedd CNC tuag at Wyddoniaeth Dinasyddion. Croesawyd y sesiwn gan y Fforwm.
5. Rhoddwyd cyflwyniad ar lygredd cynhyrchion fferyllol mewn dŵr gan Thomaz Andrade o Lywodraeth Cymru. Bydd problemau ehangach llygredd cemegol mewn dŵr, gan gynnwys cynhyrchion fferyllol, yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.
6. Roedd Unrhyw Fater Arall yn hyrwyddo'r ymgynghoriad presennol ar y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a fydd yn para tan 24 Mai 2023. Cafodd aelodau'r fforwm eu hannog i ymateb i hyn.
7. Yn olaf, bydd y fforwm yn cyfarfod ar gyfer taith maes ar 3 Mai ym mhrosiect Uwch Conwy. Bydd hyn o fudd i ychwanegu at y sesiynau mwy ffurfiol gydag ymweliad safle wyneb yn wyneb.
8. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar 26 Hydref 2023. Mae'r rhagolwg ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys:
 - a) Cynhyrchion fferyllol a chemegau – dilyniant
 - b) Tueddiadau dŵr daear
 - c) Plastigau ac amgylchedd dŵr
 - d) Adolygu'r Cylch Gorchwyl (eitem safonol bob yn ail flwyddyn)
9. Mae nodiadau'r cyfarfod ar gael ar dudalen y Fforwm ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	18 Mai 2023
Teitl y Papur:	Diweddariad Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru (NAFW)
Cyfeirnod y Papur:	23-05-B10
Noddir y Papur gan:	Geraint Davies, Cadeirydd NAFW
Paratowyd y Papur gan:	Carys Drew, Ysgrifenyddiaeth NAFW (Ymgynghorydd Arbenigol Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rhwydweithiau)
Cyflwynir y Papur gan:	Geraint Davies, Cadeirydd NAFW
Diben y papur	Information

Cefndir

- Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru (NAFW) yn fforwm anstatudol sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid o sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector sydd â diddordeb ac arbenigedd mewn mynediad i'r awyr agored a hamdden yng Nghymru.
- Prif ddibenion NAFW yw:
 - Helpu i wella ansawdd a graddau mynediad i gefn gwlad ac arfordiroedd Cymru, ac ymestyn y cyfleoedd i fwynhau a hamddena cyfrifol yn yr awyr agored i bawb, gan ystyried cynaliadwyedd ac addysg amgylcheddol
 - Cydweithio fel rhwydwaith rhanddeiliaid, meithrin dealltwriaeth, a rhannu gwybodaeth ac arfer da; cefnogi gwireddu manteision hamdden a mynediad i'r awyr agored yng Nghymru
 - Cefnogi CNC yn ei nod o gynyddu'r niferoedd sy'n cyfranogi mewn hamdden awyr agored, ac yn elwa arno, ac i wneud hynny'n amlach
- Mae CNC yn darparu'r Cadeirydd (Geraint Davies) a'r Ysgrifenyddiaeth (Carys Drew), a'r Dirprwy Gadeirydd yn cael ei enwebu o blith yr aelodaeth (Ruth Rourke, y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad). Mae Dr Rosie Plummer, Bwrdd CNC, hefyd yn cefnogi ac yn mynychu cyfarfodydd.

4. Mae NAFW yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Mae cyfarfodydd fforwm yn agored i sylwedyddion ac yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ond nid ydynt yn gyfarfodydd cyhoeddus. Lle bo angen, gall y Cadeirydd sefydlu gweithgorau i ystyried materion penodol a chyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd dilynol, ond ni fydd cyfarfodydd y gweithgor yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Nid oes unrhyw weithgorau gweithredol ar hyn o bryd.
5. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn crynhoi cyfraniadau ysgrifenedig cyn pob cyfarfod, ac mae hyn yn gyfle i'r aelodau, CNC a Llywodraeth Cymru (LIC) rannu gwybodaeth fanwl. Cyhoeddir y cyfraniadau ysgrifenedig ar gyfer pob cyfarfod, ynghyd ag agendâu a nodiadau cyfarfod cryno, ar wefan CNC: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru](#)

Diweddariad

6. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf NAFW ar-lein ar 14 Mawrth 2023. Mae pob eitem ar yr agenda yn cynnwys amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth.
7. Cyflwynodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf i'r Fforwm yn dilyn ei gyfarfod gyda Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ar 8 Chwefror 2023. Cafwyd sgwrs adeiladol am y Fforwm a ffyrdd o weithio. Y bwriad yw trefnu cyfle pellach i'r Cadeirydd a'r Gweinidog gyfarfod wrth gerdded (dyddiad i'w gadarnhau), ac mae'r Gweinidog wedi cytuno i fynychu cyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Gorffennaf (rydym yn disgwyl am gadarnhad o'r dyddiad gan Lywodraeth Cymru).
8. Rhannwyd cyflwyniad gan Eve Nicholson, Swyddog Marchnata Llwybr Arfordir Cymru, yn crynhoi amrywiaeth eang o weithgareddau a gynhaliwyd gyda phartneriaid i hyrwyddo'r Llwybr ym mlwyddyn dathlu ei ddengmlwyddiant. Gan ddatblygu ar wersi o'r gwaith hwn, bu'n rhannu blaenoriaethau strategol 2023-24 yn canolbwyntio ar ddull cydweithredol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol sy'n rhoi pwyslais cryf ar gyfleoedd cerdded yng Nghymru.
9. Rhannodd Joe Roberts, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol: Mynediad a Hamdden Awyr Agored waith yn ymwneud â chelf a diwylliant a sut mae'n plethu â hamdden awyr agored. Ers llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Natur Greadigol yn 2020, mae CNC wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid eraill yn y sector diwylliannol i archwilio sut i ddefnyddio'r celfyddydau i ailgysylltu pobl â natur ac ennyn diddordeb pobl mewn sgwrs am yr argyfyngau hinsawdd a natur.
10. Esboniodd Peter Rutherford, Rheolwr Mynediad a Llesiant Parc Cenedlaethol Eryri, gefndir ffilmiau newydd a gynhyrchwyd i hyrwyddo llwybrau hygyrch yn y Parc Cenedlaethol a rhannodd enghreifftiau o'r ffilmiau hyn gyda'r Fforwm.
11. Rhannodd Rebecca Brough, Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth Cymdeithas y Cerddwyr yng Nghymru wybodaeth am y prosiect Llwybrau at Les. Prosiect yw hwn sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant

(ENRaW). Mae wedi bod ar waith dros y 18 mis diwethaf gyda'r bwriad o gyflwyno dull seilwaith gwyrdd, seiliedig ar le i Gymru er mwyn helpu cymunedau i ddeall, defnyddio a rheoli eu mannau gwyrdd eu hunain a chael mynediad i'r rhwydwaith llwybrau mewn ffordd newydd.

12. Gwahoddwyd yr aelodau i adolygu'r Cylch Gorchwyl presennol (a adolygwyd ac a gymeradwywyd ddiwethaf yn 2019) ac i gynnig sylwadau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.
13. Cafodd cyfraniadau ysgrifenedig eu dosbarthu cyn y cyfarfod a chafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am y rhain ac i rannu diweddariadau pellach.
14. Nodyn cryno yn hytrach na chofnod air am air yw cofnodion y cyfarfod. Mae'n cael ei ddosbarthu ar ffurf drafft, yn cael ei gadarnhau drwy e-bost, ac yna'n cael ei gyhoeddi ar y dudalen we.
15. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm wyneb yn wyneb ddechrau mis Gorffennaf, gyda'r dyddiad hwnnw i'w gadarnhau ar sail argaeledd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.
16. Cynhelir y cyfarfodydd wedi hynny ar-lein ar 7 Tachwedd 2023 a 5 Mawrth 2024.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	18 Mai 2023
Teitl y papur:	Adroddiad Perfformiad Cyllid
Cyfeirnod y Papur:	23-05-B11
Noddir y Papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynir y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid
Diben y Papur:	Cymeradwyo (newid yn y rhagolygon) / Trafodaeth (Perfformiad Ariannol)
Crynodeb	Cymeradwyo: Diwygiad i'r rhagolygon, o £237.1m i £247.1m. Ystyried: Perfformiad cyllid hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cefndir

- Mae'r Adroddiad Perfformiad Cyllid yn rhoi manylion am alldro diwedd y flwyddyn ar draws y mathau gwahanol o incwm, gwariant, a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol o ran:
 - Perfformiad hyd diwedd blwyddyn ariannol 2022-23, o'i gymharu â'r rhagolwg diweddaraf.
 - Sylwebaeth drwy eithriad ar sut rydyn ni'n symud ymlaen yn erbyn y rhagolygon incwm a gwariant gwahanol.
 - Newidiadau i'r rhagolygon.

Newidiadau i'r Rhagolygon

- Yn adroddiad mis Ionawr fe wnaethon ni dynnu sylw at y ffaith ein bod yn disgwyl cyllid ychwanegol ar gyfer y rhaglenni Argyfyngau Hinsawdd a Natur a'r Cyfalaf

Llifogydd (£1.1m a £2m yn y drefn honno). Ar y pryd, teimlwyd bod yr arian ychwanegol ar gyfer y rhaglen Cyfalaf Llifogydd yn mynd i liniaru'r risg o orwario, er ein bod yn teimlo bod angen mwy o gyllid ar y pryd.

3. Hefyd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru roi arian i ni wneud taliad i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£6.9m), a fydd yn helpu gyda sefyllfa'r flwyddyn ariannol nesaf.
4. O ganlyniad i'r newidiadau hynny fe newidiodd y rhagolygon o £237.1m i £247.1m.

Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023

5. Rydyn ni'n dal i gwblhau'r sefyllfa diwedd blwyddyn, felly mae'n bosibl y gallai fod rhai mân newidiadau i'r hyn sy'n cael ei adrodd yma. Y mwyaf arwyddocaol yw cyfrifo ein sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer cynlluniau codi tâl, a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod mis Mai.
6. £245.7m oedd yr incwm, sy'n is na'r rhagolygon (£247.1m). Roedd gwariant yn £247.1m, sydd yr un fath â'n rhagolygon ond 0.6% ac £1.4m yn uwch na lefel y cyllid. Er bod gwariant yr un fath â'r rhagolygon mae amrywiannau ar draws y gwahanol gyllidebau, sy'n cael eu hesbonio isod.
7. Y negeseuon allweddol ynglŷn â'n perfformiad incwm yw:
 - Cyfanswm yr incwm oedd £245.7m yn erbyn rhagolwg cyffredinol o £247.1m. Amrywiant o £1.4m a 0.6%.
 - Cafwyd incwm pren o £33.8m, sy'n fwy na'n rhagolwg diweddaraf o £33.5m ond gryn dipyn yn is na'n cyllideb wreiddiol (£40m). Roedd mis Mawrth yn fis cadarnhaol, pan gafodd gwerth 57,520 tonnau eu dosbarthu am bris cyfartalog o £53.80. Yn y ddau fis blaenorol, roeddem ar gyfartaledd o 48,300 tonnau a chyfartaledd o £52.10.
 - At ei gilydd, roedd incwm masnachol (gan gynnwys incwm pren) yn cyd-fynd â'r rhagolygon (£59.2m o'i gymharu â £59.1m). Roedd incwm ffermydd gwynt y gellir ei ildio £0.3m yn llai na'r rhagolygon tra bod incwm y gellir ei gadw £0.2m yn uwch na'r rhagolygon.
 - Roedd incwm taliadau fymryn yn uwch na'r rhagolygon (£0.1m).
 - Roedd grantiau Llywodraeth Cymru £0.7m y tu ôl i'r rhagolygon am nad oedd llawer o fentrau a phrosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gwario yn ôl y rhagolygon er bod Llywodraeth Cymru yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am amrywiannau tebygol. Fe gawson ni'r £6.9m ychwanegol i'w dalu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ym mis Mawrth.
 - Roedd cyllid allanol yn is na'r rhagolygon (£1m) oherwydd nad oedd sawl prosiect yn gwario fel y rhagwelwyd. Mae hwn yn fater amseru, a'r ffaith bod incwm ar gael dros oes y prosiectau.
8. Y negeseuon allweddol ynglŷn â'n perfformiad gwariant yw:

- Staff - roedd gwariant o £111.7m yn erbyn rhagolwg o £111.9m. Fel y rhagwelwyd, roedd gwariant yn unol â'n rhagolwg diwygiedig, amrywiant o £0.2m, 0.2%. Bydd aelodau yn cofio ein bod yn ail-bwrpasu arbedion cyflog sy'n deillio o swyddi gwag er mwyn fforddio'r cynnydd mewn dyfarniad cyflog o 2% i 4%.
- Gwariant di-staff - yn fwy na'r gyllideb (£0.4m a 0.6%). Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roeddem yn rhagweld gorwariant ar ein rhaglen Stiwardiaeth Tir ac, os na allem liniaru'r risg hon yn llawn, yna byddai angen i ni ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am drosglwyddiad cyllideb. Bu gorwario yn y gyllideb Stiwardiaeth Tir ond roeddem yn gallu lliniaru'r rhan fwyaf ohono - gweler Atodiad A sy'n dangos sut y cyflawnwyd hynny.
- Prosiectau - gyda'i gilydd, roedd gwariant yn £63.3m yn erbyn rhagolwg o £63.5m. Amrywiant o £0.2m a 0.3% ar gyfer prosiectau cyfalaf a referniw. Wedi'i gynnwys o fewn yr amrywiant bach hwnnw roedd ychydig o wahaniaethau nodedig sydd angen eu gwella yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
 - Rhaglen Gyfalaf Perygl Llifogydd - cawsom fwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru, cynnydd o £17m i £19m. Yn ddelfrydol byddem wedi sicrhau £0.5m yn ychwanegol ar y pryd. Gyda gwerthiant a chyfraniadau asedau, £19.6m oedd cyfanswm yr arian. Roedd y rhaglen dros ei chyllideb o £1.2m (6%) gyda gwariant o tua £20.8m.

Mae'r rhaglen yn cynnwys sawl prosiect cymhleth, pob un â risgiau, tuedd optimistiaeth a chymhlethdodau. Mae gennym hanes da o reoli'r risgiau a'r optimistiaeth hynny yn y rhagolygon, ac rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a'r wybodaeth orau a gyflenwyd gan dimau prosiect i reoli'r rhaglen gyffredinol yn ôl y gyllideb. Roedd ein rhagolygon hyd at fis Chwefror yn dangos y byddai'n gwariant rhaglenni yn ôl y gyllideb pe bai'r proffiliau prosiect nodweddiadol yn dwyn ffrwyth. Er i hyn ddigwydd ar draws rhai prosiectau yn ein rhaglen, mae sawl prosiect sylweddol wedi cyflawni mwy o waith na'r disgwyl yn ystod y mis diwethaf. Yn benodol, mae prosiectau Stephenson Street a Rhydaman wedi dechrau ar y safle ac yn mynd rhagddynt yn dda iawn - yn well na'r disgwyl. Mae tywydd cymharol dda gydol y gaeaf wedi golygu bod cynlluniau allweddol wedi datblygu'n dda, sydd wedi arwain at gyflawni mwy o waith na'r disgwyl ym mis Mawrth. Rydyn ni hefyd wedi wynebu llai o fân broblemau neu oedi ar brosiectau allweddol. Er bod hyn i gyd yn newyddion da yn nhermau cyflawni, mae wedi arwain at orwario fel y nodwyd.

- Prosiectau a ariennir yn allanol - erbyn hyn, mae gennym sawl prosiect gwerth uchel ar y gweill ar yr un pryd, gan arwain at ragolygon cyffredinol eleni o £7.1m. Roedd gwariant yn £6.1m sy'n is na'r bwriad (£1m, 14%), ond mae modd cario cyllid ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Cafodd

prosiectau a ariennir yn allanol eu rhagfynegi ar ddechrau Chwarter 4, ond mae newidiadau mewn amgylchiadau ac o bosibl tuedd optimistiaeth wedi cyfrannu at danwario yn y flwyddyn ariannol hon. Ar gyfer prosiectau allanol a rhai a ariennir gan Lywodraeth Cymru, nid oes modd ail-flaenoriaethu gan fod y grantiau at ddibenion penodol.

- Prosiectau / mentrau a ariennir gan grant Llywodraeth Cymru - rydyn ni'n derbyn mwy a mwy o arian drwy'r llwybr hwn. Y llynedd, roedd yn £16m ar gyfer rhaglen Argyfwng Hinsawdd a Natur (NaCE) a £5.2m ar gyfer prosiectau a mentrau eraill. Llwyddwyd i ddefnyddio bron yr holl gyllid NaCE ond ni ddefnyddiwyd £0.6m (12%) ar gyfer gweddill y prosiectau / mentrau am resymau gwahanol. Fe wnaethom ddiweddar Llywodraeth Cymru ar y risgiau sy'n gysylltiedig â rhai o'r prosiectau / mentrau hyn yn Chwarter 4. Mae gweinyddu'r cyllid hwn fel grantiau yn golygu defnyddio llawer iawn o adnoddau, ac yn cyfyngu ar ein gallu i ail-flaenoriaethu wrth wynebu tanwariant gan fod y grantiau at ddibenion penodol iawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i edrych ar ddewisiadau amgen i drefniadau'r grant ar gyfer 2024-25.

Roedd y rhaglenni canlynol yn nodedig am eu perfformiad cyllidebol eithriadol:

- Rhaglen Gyfalaf NaCE – gyda'r cyllid ychwanegol ar gyfer Mawndiroedd, cododd ein rhagolygon i bron £16m. Llwyddwyd i ddefnyddio'r holl gyllideb – gyda mymryn o orwario a amsugnwyd gan ein rhaglenni Mawndir, Ansawdd Dŵr a Rhwydweithiau Natur, a £27k o dan ein rhaglen Goedwigoedd Genedlaethol. Mae hwn yn alldro trawiadol iawn ar gyfer y rhaglen gymharol newydd hon.
- Rhaglen Plannu Cydbwysu – cyflawnwyd yn unol â'r rhagolygon diwygiedig a darparodd £2.6m o gaffaeliadau tir i'w hailblannu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

9. Felly, yn y bôn:

- Rydy ni wedi gorwario £1.2m ar y Rhaglen Gyfalaf Llifogydd. Rydyn ni wedi trafod hyn gyda Llywodraeth Cymru a bydd angen sicrwydd yn y gyllideb ar gyfer y gwariant hwnnw. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar Gyfalaf Llifogydd yn cwmpasu'r Awdurdodau Lleol a ninnau. Cawsom wybod gan Lywodraeth Cymru bod yr Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r gyllideb wedi tanwario mwy na'n gorwariant ni. Felly rydyn ni'n chwilio am eglurder i weld a fydd ein gorwariant wedi'i gwmpasu gan hyn.
- Roedd yna orwariant o fewn y rhaglen Stiwardiaeth Tir. Llwyddwyd i liniaru'r rhan fwyaf o hyn trwy danwario ar draws meysydd eraill a newid y broses o gyfrifo taliadau prydles cerbydau. Mae'r sefyllfa net yn golygu diffyg o £0.2m o gymharu â'n cyllid. Rydyn ni wedi siarad â Llywodraeth Cymru a bydd hyn yn cael ei reoli drwy ein proses gyfunol newydd ar ddiwedd blwyddyn.

- Byddwn ni'n asesu'r sefyllfa yn erbyn ein cynlluniau codi tâl ym mis Mai.
- Byddwn yn cynnal ymarferiad gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglenni Stiwardiaeth Tir a Chyfalaf Llifogydd.
- Hefyd, byddwn yn cynnal adolygiad ehangach o'r hyn a wariwyd gennym yn erbyn y gyllideb wreiddiol yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, er mwyn helpu i lywio gofynion y gyllideb cyn y flwyddyn ariannol nesaf.

Risgiau a chyfleoedd

10. Mae gennym risg yn y Gofrestr Risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol am 'wariant yn ystod y flwyddyn'. Mae hyn hefyd yn cysylltu â SR01 (Cyllid Annigonol - Tymor Canolig). Gyda chyllideb fwy eleni, roedden ni'n teimlo bod mymryn mwy o risg i ddefnyddio'r gyllideb, ond mae hynny wedi'i liniaru ac mae'r risg nawr o orwario.
11. Byddwn yn datgelu nifer o ddarpariaethau a rhwymedigaethau amodol yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon a allai droi'n rhwymedigaethau ariannol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid ydym yn gwybod beth fydd y canlyniad ac felly nid oes effaith ar y gyllideb eleni. Bydd hyn yn cynnwys honiadau cyfreithiol a'r trafodaethau parhaus presennol rhyngom ni a CThEF ynghylch trefniadau oddi ar y gyflogres gyda'n contractwyr.

Goblygiadau ehangach

12. Y goblygiadau ehangach yw:
 - (a) **Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Mae gennym risg o fewn y Gofrestr Risg Cyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
 - (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n Hamcanion Llesiant.

Camau Nesaf

13. Byddwn yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Tîm Gweithredol, y Tîm Arwain yn ogystal â'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid.
14. Mae'r adroddiad yn cael ei gynhyrchu bob dau fis i'r Bwrdd.

Argymhelliad

15. Y Bwrdd i graffu ar berfformiad ariannol tan ddiwedd Mawrth 2023.
16. Y Bwrdd i gymeradwyo newid i ragolygon llinell isaf sydd wedi cynyddu i £247.1m.

Mynegai Atodiadau


Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol

NRW Board & Executive Team Budget Performance Report as at March 2023


SECTION 1: NRW Financial Performance Summary

Section 1. Summary	Actual YTD £m	Approved Forecast YTD £m	Variance YTD £m	Var YTD %	Approved Forecast FY £m	Remaining Budget %	Original Budget FY £m	Commentary
Income	245.8	247.1	-1.4	-1%	247.1	1%	241.9	Overall income was £1.4m less than forecast (0.6% of full year forecast of £247.1m), linked to the following key areas: The various charging schemes recovered £0.1m more than forecast. There maybe further changes when we undertake a thorough assessment of charge related expenditure as part of the annual accounts, with any surplus/deficit being deferred into next financial year. Commercial income, including timber sales was £0.1m greater than forecast. Timber income was £0.3m more than forecast due to a very good March. The other main variance was surrenderable windfarm income being £0.3m less than forecast, which resulted in less income being surrendered to Welsh Government. European & External income was £0.9m less than forecast. The external funding element has been deferred into next financial year. This is due to there being less spend on these programmes than forecasted. The Grant in Aid element was £0.7m less than forecast, linked solely to Welsh Government grants. The Nature and Capital Emergencies Programme (NaCE) and all other GIAs were in line to forecast and fully utilised.
Expenditure	247.1	247.1	0.1	0%	247.1	0%	241.9	Overall expenditure for the year is in line with the full year forecast of £247.1m. However, when broken down further there are variances within the key categories: Pay costs - £0.2m under spent (0.2% of the full year budget). Non staff - £0.4m over spent (0.6%). Predominantly linked to Land Stewardship (£1.7m over), which was offset by under spends within EPP (£0.4m), ICT (£0.4m) & Business Support Services (£0.5m). £0.4m of which is linked to a prepayment adjustment for lease costs within fleet. Revenue projects - £1.0m under spent (6%). £0.8m relates to WG & externally funded grants. The external grant funding is ring fenced and the under spend has resulted in less income being drawn down this year. Capital projects - £0.8m over spent (2%). Predominantly linked to flood (£1.5m over)*, which is offset by under spend within external & core funded projects (£0.2m & £0.4m respectively) & Land Stewardship (£0.2m). The underspend on external funded projects cannot be used to offset our flood capital position. The other underspends (land stewardship and core) have been incorporated into our calculation of the net core overspend of £0.2m. *Flood underspend reduced by a further £0.3m due to the attribution of asset sales.

Income



Expenditure



SECTION 1.2: Key messages on budget position

•Net flood capital position, inclusive of asset sales:

Flood Capital Position	/£M
Total flood expenditure	20.8
Total Grant in Aid	19.0
Total other funding (asset sales & contributions)	0.6
Net over spend	1.2

Welsh Government manage the Local Authority and NRW Flood capital spend within the same budget and we have been made aware of an underspend within Local Authorities that's greater than our overspend. We are awaiting confirmation from Welsh Government whether they will set them against each other.

•Net revenue position is an overspend of £0.2m.

•Externally funded projects have under spent by £1m (14%) on a programme of £7.1m.

